

Polisi Asesu

2026/27

Cynnwys

1	Pwrpas y Polisi	3
2	Egwyddorion a Gofynion Asesu	3
3	Asesiad ar gyfer Dysgu a Chymorth Myfyrwyr	5
4	Rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd asesu	5
5	Addasiadau Rhesymol.....	7
6	Mathau o asesiad.....	8
7	Adborth i Fyfyrwyr ar asesiadau crynodedol	9
8	Estyniadau i asesiadau.....	10
9	Amgylchiadau esgusodol.....	10
10	Marcio a chymedroli asesiadau	10
11	Cosbau asesu	13
12	Technolegau Digidol a Deallusrwydd Artiffisial mewn Asesiadau	14
13	Dyfarnu marciau.....	14
14	Byrddau Asesu	14
15	Cyfleoedd i ailsefyll	16
16	Asesiad Amgen.....	17
17	Apeliadau Academaidd.....	17
18	Cadw gwaith	17
19	Diogelu Data	17
20	Gwybodaeth gysylltiedig	18
21	Geirfa termau	18
22	Hygyrchedd.....	20
	Atodiad 1 Cylch gorchwyl Byrddau Asesu	3
1	Trosolwg	3
2	Rhesymeg	3
3	Gweithrediad.....	3
4	Swyddogaethau Aelodau'r Bwrdd Asesu	3
5	Adrodd.....	3
6	Bwrdd Asesu Modiwlau.....	4
7	Byrddau Asesu Dyfarniadau/Cynnydd	7
	Atodiad 2 – Cyfarwyddiadau Cyffredinol ar gyfer Marcio Asesiadau	11

1	Fframwaith Marcio Lefel 3	11
2	Fframwaith Marcio Lefel 4	14
3	Fframwaith Marcio Lefel 5	18
4	Fframwaith Marcio Lefel 6	23
5	Fframwaith Marcio Lefel 7	30
	Atodiad 3 - Trefn Arholi	36
1	Pwrpas a Chyd-destun	36
2	Amserlennu Arholiadau	36
3	Addasiadau Rhesymol ar gyfer Arholiadau	38
4	Arholiadau a phrofion ar-lein o bell	38
5	Arholiadau ar y campws a phrofion yn y dosbarth	39
6	Canllawiau goruchwyllo	40
7	Ymddygiad Mewn Arholiadau	40
8	Camgymeriadau gweinyddol sy'n gysylltiedig gydag arholiadau	41
9	Rolau a Chyfrifoldebau	41
	Atodiad 4 – Siart Llif Academaidd y Gymraeg	44
1.	Siart llif i fyfyrwyr	44
2.	Siart llif i staff	45

1 Pwrpas y Polisi

1.1 Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull y bydd y Brifysgol yn ei fabwysiadu i asesu rhaglenni sy'n arwain at ddyfarniad. Ei ddiben yw bod yn glir ynghylch ar ba sail y bydd y Brifysgol yn sicrhau safonau academiaidd ac yn cefnogi dysgu myfyrwyr orau, gan gynnwys y modd y bydd yn cydymffurfio â gofynion yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd \(QAA\)](#) a [Chôd Ansawdd y DU](#).

1.2 Mae asesiad yn galluogi myfyriwr i ddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni canlyniadau dysgu modiwlau a rhaglenni. Bydd y dull asesu cyffredinol ar gyfer pob rhaglen yn cael ei ystyried drwy brosesau sicrhau ansawdd y Brifysgol. Bydd y polisi hwn yn cael ei gymhwyso yn union yr un modd i'r holl ddarpariaethau a wneir yn enw'r Brifysgol, gan gynnwys yr hyn a ddarperir gan ddarparwyr partner neu mewn cydweithrediad â hwy, oni nodir fel arall o fewn y cytundeb partner academiaidd unigol.

1.3 Ar gyfer rhaglenni Ar-lein, dylid darllen y polisi hwn ar y cyd gyda'r Polisi Darpariaeth Ar-lein.

1.4 Yr hyn y gall myfyrwyr ei ddisgwyl:

- Briffiau asesu clir.
- Meini prawf marcio tryloyw.
- Adborth ymhen 15 diwrnod gwaith y Brifysgol.
- Adborth adeiladol sy'n cefnogi gwelliannau.
- Marcio teg a chyson.
- Amserlen asesu briodol.
- Addasiadau rhesymol lle bo angen.
- Canllawiau clir ar ddefnyddio AI.
- Cyfleoedd i drafod asesiadau.

Mae gwybodaeth ychwanegol ynghylch yr hyn y gall myfyrwyr ei ddisgwyl ar gael yn y Siarter Myfyrwyr.

2 Egwyddorion a Gofynion Asesu

2.1 Mae'r egwyddorion a'r gofynion canlynol yn berthnasol i'r gwaith o ddylunio, cyflwyno ac adolygu asesiadau ar draws yr holl raglenni a modiwlau:

- Mae asesiadau wedi'u dylunio'n bennaf i gefnogi dysg, datblygu, hyder a llwyddiant myfyrwyr. Dylai gweithgareddau asesu ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau, cael adborth, myfyrio ar eu dysg a gwella cyn i ganlyniadau crynodedol gael eu pennu.

- Mae'n rhaid i dimau modiwlau gyflwyno Sesiwn Frifffio Asesu Lansio Modiwl ar ddechrau pob modiwl. Mae'n rhaid i'r sesiwn frifffio egluro'r dasg asesu, y deilliannau dysgu, y meini prawf marcio, Cyfarwyddyd Asesu'r Brifysgol (Atodiad 1), y safonau disgwylidig a'r gofynion cyflwyno yn glir. Mae'n rhaid iddi gefnogi dealltwriaeth myfyrwyr o sut y caiff marciau eu dyfarnu drwy ddefnyddio enghreifftiau o asesiadau, trafod meini prawf marcio yn ogystal â chyfleoedd i ofyn cwestiynau a cheisio eglurder cyn cyflwyno.
- Mae'n rhaid i bob rhaglen a bob modiwl gael strategaeth asesu sy'n dangos sut y mae asesiad yn galluogi myfyrwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu bwriadedig. Caiff strategaethau asesu eu hystyried drwy brosesau dilysu ac ail-ddilysu rhaglenni'r Brifysgol.
- Dylai pob modiwl fel arfer ddarparu ffordd o wirio datblygiad neu asesiad ffurfiannol cyn cwblhau'r prif asesiad crynodol.
- Bydd pob modiwl fel arfer yn cynnwys dim mwy na dau asesiad crynodol. Mae'n rhaid i bwysoliad pob asesiad gyfleu ei gyfraniad at gyflawni deilliannau dysgu'r modiwl.
- Ni ddylai deilliannau dysgu modiwl gael eu hasesu mwy nag un unwaith fel arfer. Lle bo gofyniad penodol i asesu deiliant dysgu ar fwy nag un adeg, mae'n rhaid cymeradwyo rhesymeg glir drwy brosesau dilysu neu ail-ddilysu'r Brifysgol.
- Mae'n rhaid i bwysau asesiadau o fewn modiwlau ac ar draws rhaglenni fod yn gymesur, yn gysylltiedig ac yn gallu cael eu rheoli, gan ystyried llwyth gwaith myfyrwyr a'r amserlen ar gyfer dyddiadau cyflwyno asesiadau.
- Mae'n rhaid i asesiadau gael eu dylunio i fod yn gynhwysol, yn glir, yn wreiddiol, yn briodol o ran her ac yn cefnogi dysg myfyrwyr a datblygiad sgiliau.
- Gall myfyrwyr ddewis cwblhau asesiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg, neu gyfuniad o'r ddwy iaith, oni bai y nodir yn wahanol o fewn cytundeb partneriaeth.
- Bydd myfyrwyr yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o adolygu a gwella asesiadau drwy Fforymau Llais y Myfyriwr, Gwerthusiad Myfyrwyr o Fodiwlau, Unitu, cynrychioli ar bwyllgorau a ffyrdd eraill o roi adborth sefydliadol a lleol.
- Mae'n rhaid i bob briff asesu nodi'n glir y defnydd a ganiateir, a gyfyngir ac a waharddir o ddeallusrwydd artiffisial (AI) cynhyrchiol a rhoi canllawiau i fyfyrwyr ar unrhyw ofynion ar gyfer datgelu neu gydnabod y defnydd o AI.

2.2 Yn ogystal â hyn, mae gan Brifysgol Wreccsam ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (2011). Yn unol â Safonau 90 a 90A ynghylch hawliau myfyrwyr, mae gan bob myfyriwr yr hawl i gyflwyno gwaith yn y Gymraeg heb roi rhybudd ymlaen llaw a heb ddim oedi o ran cael adborth. Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor bod yn rhaid i'r Gymraeg beidio â chael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.3 Cyfrifoldeb y Deoniaid Cyswllt a'r Arweinwyr Rhaglenni yw sicrhau bod cynlluniau priodol ar waith cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd i atal unrhyw oedi o ran marcio gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg ac i sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwr dan anfantais. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i Ddeoniaid Cyswllt ac Arweinwyr Rhaglenni sicrhau y gwneir trefniadau addas ar gyfer marcwyr

mewnol ac allanol, a bod myfyrwyr yn cael copi o unrhyw waith a gyfieithwyd neu asesiadau a gwblhawyd. Mae arweiniad ar hyn i'w gael yn atodiad 3 y Polisi hwn.

3 Asesiad ar gyfer Dysgu a Chymorth Myfyrwyr

3.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gefnogi dysg, datblygiad a llwyddiant myfyrwyr drwy asesiadau ac adborth. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod:

- Asesiadau'n cefnogi dysg a datblygu drwy alluogi myfyrwyr i ddangos eu bod wedi cyflawni deilliannau dysgu a datblygu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad ar gyfer astudio yn y dyfodol, cyflogaeth a dysgu gydol oes.
- Adborth yn amserol, yn adeiladol ac yn canolbwyntio ar y dyfodol, gan alluogi myfyrwyr i ddeall eu perfformiad a nodi camau gweithredu ar gyfer gwella yn asesiadau'r dyfodol.
- Disgwyliadau asesu yn glir ac yn dryloyw, ynghyd â sicrhau bod deilliannau dysgu, gofynion asesu, meini prawf marcio a disgrifiadau o'r graddau ar gael i fyfyrwyr cyn asesu.
- Llwythi gwaith asesu yn gydgyssylltiedig a bod modd eu rheoli, ynghyd â monitro amserlenni asesu i leihau clystyru diangen a chefnogi ymgysylltiad, llesiant a llwyddiant academiaidd myfyrwyr.
- Myfyrwyr yn bartneriaid yn y gwaith o wella asesu ac adborth, ac yr ymgynghorir â nhw drwy ddulliau priodol ynghylch arferion asesu, datblygu polisi a newidiadau sy'n effeithio ar brofiad y myfyriwr.
- Asesiadau Digidol ac wedi'u Galluogi gan AI yn dryloyw, yn gynhwysol ac yn gydradd, ynghyd â darparu canllawiau clir ar ddefnydd priodol technolegau digidol a deallusrwydd artifisial mewn dysgu, addysgu ac asesu.

4 Rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd asesu

4.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod asesiadau'n briodol i ganlyniadau dysgu'r rhaglen/modiwl perthnasol a bod yr holl asesiadau'n cael eu cyflawni a'u marcio gan staff sy'n gymwys i wneud hynny, bod canlyniadau'n cael eu cofnodi, eu prosesu, eu cyflwyno a'u dychwelyd i'r myfyrwyr yn gywir.

4.2 Mae nifer o brosesau ar waith i sicrhau bod trefniadau asesu'r Brifysgol yn bodloni disgwyliadau a gofynion y DU a nodir cyfleoedd mireinio i wneud gwelliannau i'w hasesiadau.

- Dilysu ac ail-ddilysu.
- Addasu rhaglenni a modiwlau.
- Archwilio allanol.
- Adolygiad cymheiriaid o bapurau arholiad.
- Marcio.
- Cymedroli mewnol.

- Byrddau Asesu.

Noder: nid yw'r rhestr uchod yn holl-gynhwysol.

4.3 Mae'n gyfrifoldeb ar dimau rhaglenni i adolygu effeithiolrwydd asesu yn flynyddol drwy ddefnyddio adborth myfyrwyr a data perfformiad i nodi camau gwella, a dylid eu nodi a'u holrhain hyd at eu cwblhau drwy'r adroddiad blynyddol a'r cynllun gweithredu Monitro a Gwella Parhaus. Mae ffynonellau data yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain: Canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr (NSS), Gwerthusiad Myfyrwyr o Fodiwlau (SEMs), data parhau, bylchau o ran cyrhaeddiad, apeliadau a chwynion. Lle bo newidiadau'n ofynnol, dylai'r broses addasu gael ei defnyddio i sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i gydymffurfio â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).

4.4 Cyfrifoldeb arweinydd y modiwl yw paratoi'r tasgau asesu ar gyfer eu modiwl. Rhaid iddynt sicrhau bod y dasg asesu yn bodloni'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer asesu a bod y tasgau a osodir yn unigryw ar gyfer pob ail gynnig i sefyll arholiad. Dylai arweinydd y rhaglen ac arweinwyr y modiwlau adolygu'r tasgau asesu ar gyfer y rhaglen/modiwl o safbwynt cysondeb safonau a chydaddoldeb ymdrech myfyrwyr.

4.5 Mae adolygiad cymheiriaid yn broses lle mae academyddion o fewn timau rhaglen yn adolygu tasgau asesu ei gilydd i sicrhau eu bod yn dilyn yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer asesu ([gweler paragraff 2.1](#)). Nid yw adolygiad cymheiriaid yn cael ei fonitro'n ganolog a lle mae'n cael ei gynnal yn lleol, dylid ei gofnodi.

4.6 Yn ogystal â'r broses adolygu cyfoedion, dylai Arholwyr Allanol adolygu a chymeradwyo isafswm o 25% o'r holl friffiau/tasgau aseiniad a fydd yn cyfrannu at ddyfarniad, gan gynnwys yr holl bapurau arholiad ffurfiol, gan gynnwys papurau cyntaf a phapurau ail-eistedd.

4.7 Ar gyfer modiwlau a gyflwynir mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, dylai Arholwyr Allanol adolygu a chymeradwyo POB tasg/briff asesu sy'n cyfrannu at ddyfarniad, gan gynnwys pob papur arholiad ffurfiol.

4.8 Disgwylir i unrhyw sylwadau ar y briffiau/tasgau asesu gael eu dychwelyd o fewn tair wythnos i'r dyddiad y cânt eu hanfon at yr Arholwr Allanol ac ar ôl y dyddiad cau hwn, bydd y Brifysgol yn cymryd yn ganiataol nad oes unrhyw sylw a bod y briff/tasg asesu yn cael eu cymeradwyo. Dylai arweinydd y rhaglen gadw cofnod o'r sampl a chymeradwyaeth yr Arholwr Allanol.

4.9 Am arweiniad ar ddylunio tasgau, mae adnoddau a chynghor pellach ar gael ar yr [Hyb Dysgu ac Addysgu](#). Mae'r ASA wedi cynhyrchu canllawiau defnyddiol ar [Uniondeb Academaidd](#) y dylid rhoi sylw iddynt fel rhan o'r broses o ddylunio asesiadau.

5 Addasiadau Rhesymol

5.1 Dylid gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr sy'n gweithio ar asesiadau lle mae'r rhain wedi'u hargymell gan y Gwasanaethau Cynhwysiant. Dylai addasiadau a argymhellir ar gyfer myfyrwyr gael eu gwirio'n rheolaidd ar E:Vision gan staff academiaidd priodol gan fod y data hwn yn cael ei ddiweddarau gan y Gwasanaethau Cynhwysiant trwy gydol y flwyddyn academiaidd. Rhaid cadarnhau addasiadau rhesymol cyn i'r asesiad gael ei gynnal, fel arfer ni fyddai hyn yn hwyrach nag wythnos. Dylai myfyrwyr partneriaid sydd angen cymorth ychwanegol gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y gwasanaeth priodol yn y sefydliad partner.

5.2 Gall addasiadau rhesymol amrywio yn dibynnu ar y dasg asesu. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Estyniadau lle bo angen oherwydd dyddiadau cau cydamserol, arferion ffydd neu anawsterau penodol gyda gofynion y cwrs. Mae angen cytuno ymlaen llaw ar y rhain a hynny cyn y dyddiad cau gwreiddiol ond nid oes rhaid darparu tystiolaeth.
- Amser ychwanegol i gwblhau asesiad amser-gyfngedig, fel arholiad neu brawf yn y dosbarth.
- Gwneud cyflwyniad i grŵp llai neu'r gallu i recordio ymlaen llaw dasg sy'n cynnwys cyflwyniad.
- Defnyddio technoleg gynorthwyol gymeradwy fel meddalwedd trawsgrifio neu ddarlennydd sgrîn.
- Defnyddio offer recordio personol gymeradwy yn unol â pholisi'r Brifysgol.
- Darparu adnoddau cyn y sesiynau.
- Darparu deunyddiau arholiad mewn fformat hygyrch, a allai gynnwys darparu deunyddiau printiedig.
- Ar gyfer arholiadau a gaiff eu hamserlennu'n ganolog, bydd yr amserlenni yn ymgorffori trefniadau ar gyfer ystafelloedd gydag amser ychwanegol, darllenwyr ac ati
- Mae'r tîm Rhaglen yn gyfrifol am drefnu profion dosbarth ac arholiadau VLE/ar-lein i sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith.

5.3 Dylid cyfeirio myfyrwyr sydd ag ymholiadau penodol mewn perthynas ag addasiadau rhesymol at y tîm perthnasol. Gall staff wneud atgyfeiriad ar ran myfyrwyr i'w helpu i gael gafael ar gymorth gan Cynhwysiant yma <https://wxm.ac.uk/ask-staff>.

Tîm	Manyllyn	Gwybodaeth cyswllt
Gwasanaethau Cynhwysiant	Gall y tîm wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr mewn perthynas â chyflwr meddygol tymor hir, anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu wahaniaeth dysgu penodol a gall ddarparu cymorth a chynghor ar wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl.	inclusion@wrexham.ac.uk ask@wrexham.ac.uk
Tîm Caplaniaeth	Fel Prifysgol, mae angen i ni hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau dros ymateb i faterion ymarferol sy'n ymwneud â chadw at ffydd ar y campws a cheisiadau gan fyfyrwyr am addasiadau.	ask@wrexham.ac.uk

6 Mathau o asesiad

6.1 Bydd y Brifysgol yn defnyddio amryw o ddulliau asesu i gefnogi dysgu myfyrwyr yn y ffordd orau ac i sicrhau bod safonau academiaidd yn cael eu cynnal.

6.2 Caiff asesiad ei gategoreiddio fel y naill neu'r llall o'r isod:

- Ffurfiannol - gweithgareddau asesu ar gyfer cefnogi a gwella dysg drwy ystod o weithgareddau dysgu strwythuredig, a thrwy adborth ac adborth ymlaen llaw gan gyfoedion a thiwtoriaid. Nid yw asesiadau ffurfiannol yn cyfrannu at farc y modiwl. Dylai pob modiwl fel arfer ddarparu ffordd o wirio datblygiad neu asesiad ffurfiannol cyn cwblhau'r prif asesiad crynodol.
- Crynodol - asesiad sy'n cael ei farcio ac sy'n cyfrannu at farc cyffredinol y modiwl. Efallai y caiff adborth ffurfiannol ei ddarparu cyn asesiad crynodol lle nodir hyn yn y rhaglen neu'r modiwl. Gall cyfleoedd am adborth ar gyflwyniadau drafft fod ar gael ar gyfer rhai rhaglenni neu fodiwlau; dylai myfyrwyr gyfeirio at ddogfennau'r rhaglen a'r modiwl am fanylion.

6.3 Gall asesiad crynodol fod ar ffurf gwaith cwrs, profion ymarferol neu arholiadau yn y dosbarth:

- Gwaith cwrs – gwaith sy'n cael ei gwblhau yn amser y myfyriwr ei hun ac y mae'n rhaid ei gyflwyno erbyn amser a dyddiad penodol. Gall gwaith cwrs gynnwys llawer o ddulliau asesu megis ysgrifennu ymarferol, traethodau, portffolios, astudiaethau achos, prosiectau a thraethodau hir.
- Ymarferol – asesiad o sgiliau neu allu ymarferol y myfyriwr. Mae asesiadau o sgiliau ymarferol yn canolbwyntio ar p'un a yw myfyriwr yn cyflawni sgil ymarferol benodol a/neu ar ba mor dda mae'n cyflawni'r sgil honno. Mae enghreifftiau o asesiadau ymarferol yn cynnwys: sgiliau clinigol, Arholiad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol (OSCE), efelychiadau, gwaith labordy, ac asesiadau llafar fel cyflwyniadau a

thrafodaethau, (lle mae'r myfyriwr yn cael ei asesu ar eu cyflwyniad a/neu eu cyfraniad)

- Arholiadau - digwyddiad y mae'n rhaid i fyfyrwr ei fynychu ar amser arbennig ac mewn lle arbennig. Gall arholiadau gynnwys dulliau asesu megis profion yn y dosbarth, ar-lein, ac ar y campws. Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar gyfer staff academiaidd yn Atodiad 3 Trefn Arholi.
- Arholiadau ar-lein – lle mae'n ofynnol i fyfyrwyr gwblhau arholiad o bell o dan amodau wedi'u hamseru a dychwelyd atebion yn electronig erbyn diwedd yr arholiad trwy amgylchedd dysgu rhithwir (VLE) y Brifysgol.
- Arholiadau ar y campws – lle mae'n ofynnol i fyfyrwyr gwblhau arholiad ar y campws o dan amodau wedi'u hamseru. Lle bo'n bosibl, dylid cynnal arholiadau ar y campws mewn un ystafell a dylai pob arholiad fod o'r un hyd, amser dechrau a gorffen, oni bai bod addasiadau rhesymol ar waith.
- Profion yn y dosbarth - digwyddiad y mae'n rhaid i fyfyrwr ei fynychu ar adeg a lle penodol a all fod ar-lein neu ar y campws ac a fydd yn cael ei drefnu yn ystod wythnosau addysgu. Mae profion yn y dosbarth yn wahanol i arholiadau ffurfiol gan eu bod yn cael eu cynnal yn ystod sesiynau addysgu sydd wedi'u hamserlennu, yn hytrach nag yn ystod cyfnodau arholiadau dynodedig.

7 Adborth i Fyfyrwyr ar asesiadau crynodol

7.1 Mae'n rhaid i fyfyrwyr gael adborth amserol ar eu gwaith a asesir i gefnogi a gwella eu dysg. Mae'n rhaid i'r adborth gynnwys marc dros dro a darparu gwybodaeth glir am y graddau y mae'r deilliannau dysgu wedi'u cyflawni o ran y meini prawf asesu. Dylai adborth egluro sut y cafodd y marc ei roi, nodi agweddau da, amlygu agweddau i'w gwella, a darparu arweiniad i gefnogi datblygiad a chyflawniad academiaidd yn y dyfodol. Mae'r marc dros dro yn amodol ar gael ei gadarnhau ac nid yw'n derfynol nes y caiff ei gadarnhau gan y Bwrdd Asesu perthnasol.

7.2 Dylai'r modd y cyflwynir adborth ymwneud â natur yr asesiad a gall gynnwys:

- Adborth llafar i fyfyrwr unigol neu grŵp o fyfyrwyr (e.e. ar gyflwyniad).
- Adborth ysgrifenedig neu glywedol (e.e. ar waith cwrs neu brosiectau).
- Model o atebion neu atebion enghreifftiol gyda sylwebaeth gysylltiedig (e.e. arholiadau).

7.3 Rhaid i unrhyw adborth asesu crynodol gael ei ddangos ar y VLE. Lle rhoddir adborth llafar ar gyfer asesiad crynodol, rhaid cofnodi hyn. Rhaid uwchlwytho hwn o fewn 15 diwrnod gwaith y Brifysgol.

7.4 Efallai y bydd gan fyfyrwyr fynediad dros dro i'r arholiad digidol at ddibenion adborth neu byddant yn derbyn dogfen adborth ar wahân i adolygu sylwadau a wnaed gan y marciwr. Darperir yr adborth hwn mewn sesiwn a hwylusir gan y marciwr neu aelod arall o staff sy'n gallu cefnogi'r myfyriwr.

7.5 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod unrhyw Addasiadau Rhesymol y cytunwyd arnynt yn cael sylw o ran y modd y darperir adborth i fyfyrwr er mwyn sicrhau'r dull gorau o gefnogi eu hanghenion a'u dysgu.

7.6 Darperir adborth i fyfyrwyr ar eu hasesiad o fewn 15 diwrnod gwaith y Brifysgol i'w gyflwyno neu i gwblhau arholiad neu brawf. Mewn achosion eithriadol, bydd myfyrwyr yn cael gwybod am unrhyw wyriad o'r amserlen hon a'r rhesymau am hynny.

7.7 Mewn meysydd rhaglenni heb diwtoriaid sy'n siarad Cymraeg, bydd gwasanaethau cyfieithu yn cael eu defnyddio i alluogi marcio a darparu adborth yn y Gymraeg neu mewn rhai achosion, deir o hyd i farcwyr allanol.

8 Estyniadau i asesiadau

8.1 Mae gan fyfyrwyr hawl i gyflwyno cais am estyniad o un wythnos ar gyfer cyflwyno asesiadau, ac eithrio arholiadau, i Arweinydd y Modiwl perthnasol.

8.2 Bydd y Brifysgol ond yn ystyried ceisiadau o hyd at wythnos, wedi'u cyflwyno ymlaen llaw ar gyfer y dyddiad cau cychwynnol. Dylai myfyrwyr gael eu cyfeirio at y drefn Amgylchiadau Esgusodol ar gyfer unrhyw geisiadau eraill.

9 Amgylchiadau esgusodol

9.1 Pan fo myfyrwr yn profi amgylchiadau esgusodol annisgwyl sydd y tu hwnt i'w reolaeth ac a allai gael effaith ar eu perfformiad academiaidd, gellir cyflwyno cais amgylchiadau esgusodol yn unol â [Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol](#).

9.2 Y deiliant arferol ar gyfer hawlio amgylchiad esgusodol sy'n cael ei gynnal fydd caniatáu i'r myfyrwr ohirio ar gyfer y modiwl perthnasol neu'r elfen berthnasol. Ni fydd marciau unigol yn cael eu haddasu/diwygio yn seiliedig ar amgylchiadau esgusodol, ac yn lle hynny, bydd unrhyw farciau a dderbyniwyd eisoes yn cael eu newid i 0. Bydd y myfyrwr wedyn yn cael gohirio'r modiwl/elfen asesu yna (gan gynnwys arholiadau) a chael caniatâd i ymgeisio ar y cyfle nesaf posib fel y'i diffinnir gan Fwrdd Asesu Dyfarniadau a Chynnydd y Brifysgol. Bydd hyn heb gollu unrhyw ymgais, ac fel arfer bydd hynny ar y cyfle nesaf posib.

10 Marcio a chymedroli asesiadau

10.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddefnyddio ystod lawn y raddfa farcio ac mae wedi cynghori ei staff a'i harholwyr allanol yn unol â hynny. Mae hyn yn arbennig o bwysig ym mhen uchaf ac isaf yr ystod. Dyfernir marciau ar raddfa ganrannol (0-100%), ac eithrio pan fo angen graddfeydd eraill.

10.2 Mae holl aelodau o'r staff academiaidd amser llawn a rhan amser yn y Brifysgol wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd Academiaidd fel Marcwyr Mewnol. Bydd cymhwyster academiaidd / proffesiynol Marciwr Mewnol a/neu brofiad yn briodol i'r dyfarniad y maent yn ei farcio, gyda lefel a phwnc/pynciau'r cymwysterau hynny yn gyffredinol yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd i gael ei farcio. Mae'n rhaid i Farcwyr Mewnol ar gyfer Graddau Ymchwil gael eu penodi yn unol â'r Rheoliadau priodol ar gyfer Dyfarniadau MPhil a PhD.

10.3 Mewn achos, ac am ba bynnag reswm, megis salwch neu absenoldeb o'r Brifysgol, lle na fedr aelod o'r staff academiaidd a fyddai fel arfer yn marcio sgriptiau neu waith cwrs ar gyfer rhaglen wneud hynny, byddid fel arfer yn gofyn i aelod arall o staff sydd â'r wybodaeth briodol ymgymryd â'r gwaith.

10.4 Bydd Deon y Gyfadrn ynghyd â Deoniaid Cyswllt hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol o farcio a chymedroli Mewnol (ffurflenni MEMR) yn cael eu cynnal a'u storio'n ganolog o fewn safle Timau CME fel eu bod yn gwbl archwiliadwy, dylid creu ffolder o'r enw ffurflenni MEMR yn y ffolder pwnc perthnasol a llwytho pob ffurflen i fyny i'r ffolder hon.

10.5 Mae'r Brifysgol yn defnyddio'r dulliau canlynol ar gyfer marcio asesiadau:

- Marcio Cyntaf.
- Cymedroli mewnol.
- Ail Farcio.

Math	Gofynion
Marcio cyntaf	Mae marciwr cyntaf yn aelod o staff academiaidd sy'n gysylltiedig ag addysgu'r pwnc sy'n cael ei asesu a bydd yn dyrannu marciau i'w dyfarnu yn erbyn y deilliannau dysgu sy'n cyd-fynd â disgrifyddion gradd perthnasol. Mae marcwyr cyntaf hefyd yn darparu sylwebaeth ysgrifenedig ar gyfer adborth myfyrwyr. Rhaid i bob asesiad fynd drwy'r broses marcio cyntaf.
Cymedroli mewnol	Mae grŵp o staff academiaidd yn adolygu sampl o waith wedi'i asesu ar gyfer pob modiwl yn flynyddol. Bydd yr ymarfer cymedroli yn pennu cysondeb y marciau ac yn sicrhau eu bod yn gynrychiolaeth deg o safonau'r sector, y defnydd o'r broses farcio a bod y meini prawf marcio wedi'u defnyddio'n gywir. Dylai'r sampl: • Fod yn 10% neu'n 5 darn o waith, pa un bynnag sydd fwyaf. • Cynrychioli'r ystod lawn o farciau. • Cynnwys samplau ar gyfer pob lleoliad lle mae mwy nag un. • Cynnwys samplau sydd ar y ffin rhwng pasio/methu a methiannau.

Math	Gofynion								
	- Cynnwys samplau o'r holl farcwyr cyntaf pan fydd mwy nag un (lle nad yw hyn yn bosibl ar gyfer asesiadau ymarferol, dylid cynnwys cymaint o samplau â phosibl ar gyfer cymedroli). - Cynnwys samplau o asesiadau a gwblhawyd yn ddwyieithog neu mewn ieithoedd eraill.								
Ail farcio	Mae ail farciwr yn aelod o staff academiaidd sy'n ymwneud ag addysgu'r pwnc. Ni allant hefyd fod yn farciwr cyntaf. Dyw ail farcio ond yn berthnasol i draethodau hir a modiwlau prosiectau sylweddol. Bydd maint y garfan yn penderfynu maint sampl yr ail farcio. Dylai'r sampl: - Gynnwys yr holl fethiannau. - Cynnwys yr holl samplau sydd ar y ffin rhwng pasio/methu. - Cynrychioli'r ystod lawn o farciau. - Cynnwys samplau ar gyfer pob marciwr cyntaf lle mae mwy nag un. - Cynnwys samplau ar gyfer pob lleoliad lle mae mwy nag un. - Cynnwys samplau o asesiadau a gwblhawyd yn ddwyieithog neu mewn ieithoedd eraill. <table border="1"> <tr> <th>Nifer y myfyrwyr</th><th>Maint y sampl</th></tr> <tr> <td>Hyd at 20</td><td>All</td></tr> <tr> <td>21 – 100</td><td>30</td></tr> <tr> <td>100+</td><td>50</td></tr> </table>	Nifer y myfyrwyr	Maint y sampl	Hyd at 20	All	21 – 100	30	100+	50
Nifer y myfyrwyr	Maint y sampl								
Hyd at 20	All								
21 – 100	30								
100+	50								
Arholi allanol	Rhaid i arholwyr allanol adolygu sampl ddigonol o dasgau asesu a gwaith myfyrwyr sy'n cynnwys yr holl fodiwlau y penodwyd nhw ar eu cyfer. Dylai'r sampl: - Fod yn 10% neu'n 5 darn o waith, pa un bynnag sydd fwyaf. - Cynrychioli'r ystod lawn o farciau. - Cynnwys samplau ar gyfer pob lleoliad lle mae mwy nag un. - Cynnwys samplau sydd ar y ffin rhwng pasio/methu a methiannau. - Cynnwys samplau o'r holl farcwyr cyntaf pan fydd mwy nag un.								

Math	Gofynion
	Cynnwys samplau o asesiadau a gwblhawyd yn ddwyieithog neu mewn ieithoedd eraill. Deuir o hyd i Arholwr Allanol dwyieithog ar gyfer rhaglenni sy'n cynnig darpariaeth ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg neu ieithoedd eraill.

10.6 Lle nad yw'n bosibl i farcwyr cyntaf neu ail farcwyr gytuno ar farciau, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Arweinydd y Rhaglen. Os bydd angen, penodir trydydd marciwr mewnol cyn i'r gwaith gael ei gyflwyno i'r Arholwr/wyr Allanol. Ni ddylid defnyddio'r Arholwr Allanol fel trydydd marciwr.

10.7 Wrth anfon tasgau asesu at Arholwyr Allanol dylid anfon llawlyfrau modiwl a chynlluniau marcio ar gyfer pob safle cyflwyno hefyd. Bydd Arweinydd y Rhaglen yn sicrhau bod pecynnau modiwl o waith myfyrwyr sydd i'w gymedroli ar gael i Arholwyr Allanol, gan gadw at [Bolisi Rheoli Cofnodion](#) y Brifysgol. Dylai cyflwyno copïau papur o waith myfyrwyr i'w safoni fod am resymau eithriadol sydd wedi eu cymeradwyo gan y Deon Cyswllt perthnasol.

10.8 Bydd y pecynnau modiwlau hyn neu gyfatebol, fel arfer, yn cynnwys:

- Rhestr o'r sampl a ddewiswyd gyda rhesymau dros eu dethol a thystiolaeth o ail farcio ac unrhyw drafodaeth gymedroli.
- Manyleb y modiwl.
- Brîff yr aseiniad, atebion sampl (lle bo'n berthnasol) a llawlyfr modiwl
- Y meini prawf marcio.
- Set ddrafft o'r marciau ar gyfer y garfan.

11 Cosbau asesu

11.1 Yn ogystal â'r cosbau ar gyfer asesiadau hwyr a nodir yn y [Rheoliadau Cyffredinol](#), paragraff E4.2; efallai y byddwch hefyd yn ddarostyngedig i gosbau mewn perthynas â nifer geiriau os byddwch yn mynd 10% dros y nifer geiriau a bennwyd ar gyfer asesiad gwaith cwrs. Y gosb am fynd dros y nifer geiriau fydd 5 marc fesul pob 1000 gair gormodol.

11.2 Rhaid marcio aseiniadau yn eu cyfanrwydd a phenderfynu ar y gosb ar y diwedd.

11.3 Rhaid nodi canllawiau a gwybodaeth ynghylch cosbau asesu yn glir mewn llawlyfr rhaglen neu frîff aseiniadau (fel y nodir yn y [Rheoliadau Cyffredinol](#), E4:4) a hynny er budd myfyrwyr, marcwyr mewnol ac arholwyr allanol.

12 Technolegau Digidol a Deallusrwydd Artiffisial mewn Asesiadau

12.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall technolegau digidol ac AI gefnogi dysg, datblygiad sgiliau ac asesiadau pan gânt eu defnyddio'n briodol. Gall myfyrwyr ddefnyddio AI lle y caiff ei ganiatáu mewn canllawiau asesu a lle bo'n cefnogi, yn hytrach na chymryd lle, eu gwaith, eu barn a'u dysg eu hunain.

12.2 Mae'n rhaid i fyfyrwyr gydymffurfio â gofynion penodol i asesu sy'n ymwneud â defnyddio AI. Caiff gwybodaeth ar ddefnyddio AI yn briodol o fewn pynciau a rhaglenni ei darparu drwy'r sesiwn gynefino i fyfyrwyr, canllawiau rhaglen a briffiau asesu. Gall defnyddio AI mewn modd sy'n mynd yn groes i gyfarwyddiadau asesu, neu gyflwyno cynnwys a gynhyrchir gan AI fel gwaith personol myfyriwr, gael ei ystyried yn gamymddwyn academiaidd.

12.3 Mae rhagor o ganllawiau ar ddefnydd a ganiateir ac a waharddir o AI, gofynion datgelu a chamymddwyn academiaidd ar gael ym Mholisi Uniondeb Academiaidd a chanllawiau cysylltiedig y Brifysgol.

13 Dyfarnu marciau

13.1 Bydd myfyrwyr yn derbyn meini prawf ar gyfer pob asesiad a fydd yn cyd-fynd â'r deilliannau dysgu penodol sy'n cael eu hasesu, a dylid esbonio'r rhain i fyfyrwyr cyn iddynt ymgymryd â'r gweithgaredd. Bydd y meini prawf asesu a ddarperir i fyfyrwyr yr un meini prawf a'r rhai a ddefnyddir gan staff yn y broses farcio.

13.2 Nodir y meini prawf mewn cyfarwyddyd a fydd yn cynghori myfyrwyr ar yr allbynnau y mae angen eu dangos yn yr asesiad er mwyn cyflawni gradd benodol. Bydd meini prawf asesu (deilliannau dysgu a amlinellir ym manyleb y modiwl perthnasol) yn cyd-fynd â Chyfarwyddiadau Marcio Asesiadau Generig y Brifysgol (Atodiad 2). Gellir diwygio geiriad sydd wedi'i gynnwys yn y cyfarwyddiadau generig, sy'n ymwneud ag i ba raddau y mae myfyriwr wedi bodloni'r meini prawf (canlyniad dysgu) fel sy'n briodol i'r canlyniad dysgu. Fodd bynnag, dylai'r geiriad fod yn gyson â disgrifiadau lefel QAA ar gyfer y lefel berthnasol. Defnyddir y rhain ar draws pob rhaglen sy'n arwain at ddyfarniad gan y Brifysgol i sicrhau cysondeb o ran safonau academiaidd, gan gynnwys y rhinweddau y mae angen eu dangos ar gyfer dosbarthiad gradd penodol.

13.3 Ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu cydnabod gan Gorff Statudol neu Reoleiddiol Proffesiynol, bydd meini prawf penodol y bydd angen i fyfyriwr eu bodloni i ddangos eu bod yn bodloni safonau proffesiynol.

14 Byrddau Asesu

14.1 Mae'r Byrddau Asesu yn gyfarfod ffurfiol o staff academiaidd sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglen ac a fynychir gan Arholwr(wyr) Allanol. Mae Byrddau Asesu yn gyfrifol am sicrhau bod y Rheoliadau Academiaidd yn cael eu cymhwyso a'u cynnal yn gyson ac unrhyw wriad o'r Rheoliadau Academiaidd fel y maent yn berthnasol i raglenni astudio.

14.2 Gall y Bwrdd Asesu hefyd gynnwys aelodau allanol eraill; fel cynrychiolwyr Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol lle bo hynny'n ofynnol gan y cyrff hynny.

14.3 Mae cylch gorchwyl, cyfansoddiad aelodaeth a chworwm ar gyfer Byrddau Asesu wedi'u nodi yn [Atodiad 1](#).

14.4 Mae gofynion gwahanol yn berthnasol i'r Byrddau sy'n ystyried traethodau ymchwil myfyrwyr gradd ac yn cael eu disgrifio yn yr adran berthnasol o'r [Rheoliadau Academaidd](#) ar gyfer y dyfarniadau hynny.

14.5 Mae gan y Brifysgol ddau fath o Fyrddau Asesu:

- Bydd y *Bwrdd Asesu Modiwlau* yn ystyried ac yn cymeradwyo canlyniadau'r modiwl ar gyfer pob myfyriwr.
- Bydd y *Bwrdd Asesu Dyfarniadau/Cynnydd* yn ystyried ac yn cymeradwyo'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar raglen.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am ymddygiad a chylch gorchwyl y Byrddau Asesu yn [Atodiad 1](#).

14.6 Dylai Arholwr Allanol fod yn bresennol mewn Byrddau Asesu, a lle mae'n absennol, dylid cofnodi hyn yng nghofnodion y bwrdd asesu a rhaid iddynt ddarparu ymateb ysgrifenedig sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Y dyddiad.
- Manylion cyfarfod y Bwrdd Asesu.
- Y rheswm dros absenoldeb.
- Cadarnhau eu cyfranogiad i'r asesiad (byrddau asesu modiwlau yn unig) a'u cydsyniad â'r argymhellion terfynol y cawsant eu hysbysu ohonynt.

14.7 Bydd Prif Arholwr Allanol yn mynychu bwrdd Dyfarniadau/Cynnydd i sicrhau bod dilysrwydd a chywirdeb y prosesau yn cael eu cynnal. Byddant yn:


- Cadarnhau dyfarniad credyd i fyfyrwyr ar fodiwlau a basiwyd yn dilyn digollediad ('compensation').
- Cadarnhau cymhwysedd myfyriwr ar gyfer cynnydd neu ddyfarniad ar sail credyd cronedig.
- Sicrhau bod unrhyw ofynion penodol am ddyfarniad wedi'u bodloni.

14.8 Bydd y tîm Asesu a Dyfarniadau yn sicrhau y bydd yr holl fyfyrwyr yn cael gwybod beth yw eu canlyniadau. Lle mae penderfyniad wedi'i gytuno arno mewn Bwrdd Modiwl neu Ddyfarniad / Cynnydd i ganiatáu ailasesu, bydd y myfyrwyr yn cael gwybod am hynny'n ysgrifenedig

15 Cyfleoedd i ailsefyll

15.1 Bydd arholiadau ail-eistedd yn cael eu cynnal ar y cyfle nesaf posib, a bydd amseru hynny yn cael ei benderfynu gan dîm y rhaglen. Mae'n bosib y cynhelir yr arholiadau ail-eistedd yn ystod y flwyddyn lle caniateir hynny gan y tîm rhaglen, ar gyfer arholiadau a gymerwyd yn semester un, byddai'r arholiad ail-eistedd yn cael ei gynnal yn ystod cyfnod arholi semester dau. Mae'n bosib y byddai eithriadau ar gyfer rhaglenni ar-lein, a dylech gyfeirio os gwelwch yn dda at y Polisi Darpariaeth Ar-lein.

Ffigur 1 - Llif gwaith ail-sefyll yn ystod y flwyddyn



15.2 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ailsefyll ar gyfer pob dyfarniad yn y [Rheoliadau Academaidd](#) penodol ar gyfer dyfarniadau.

15.3 Rhaid talu ffioedd ychwanegol ar gyfer ailasesiadau a chodir ffioedd yn unol â'r cyfraddau a nodir yn y Rheoliadau Ffioedd Dysgu, a geir ar dudalen [Ffioedd a Chyllido](#) gwefan y Brifysgol.

16 Asesiad Amgen

16.1 Mae'r Brifysgol yn annog ein darpariaeth i fabwysiadu strategaeth asesu amrywiol, drwy hyn bydd ystod o fathau o asesiadau ar gael i herio ein myfyrwyr a chefnogi eu taith ddysgu. Fel rhan o hyn, efallai y bydd achosion lle na allwn ail-greu'r math o asesiad gwreiddiol ar adeg ailsefyll.

16.2 Yn yr achosion hyn, bydd asesiad amgen yn cael ei greu gan dîm y rhaglen a fydd mor agos â phosibl at y dull asesu gwreiddiol ac a fydd yn cefnogi myfyrwyr i gyflawni canlyniadau dysgu'r modiwl perthnasol. Defnyddir asesiadau amgen fel arfer mewn achosion lle mae mathau o asesiad yn cynnwys asesiadau grŵp, ymarferol neu rai sy'n seiliedig ar berfformiad.

16.3 Bydd pob tasg asesu amgen yn cael ei dylunio fesul achos ac yn berthnasol i unrhyw fyfyrwr y mae'n ofynnol iddo ailsefyll y dasg asesu y mae'r asesiad amgen yn berthnasol iddi o fewn y modiwl hwnnw. Darperir rhagor o wybodaeth am Asesiadau Amgen yn llawlyfr y modiwl neu fanyleb y modiwl.

17 Apeliadau Academaidd

17.1 Rhaid i fyfyrwr sy'n dymuno gwneud apêl academaidd fodloni'r sail dros apelio a chyflwyno eu ffurflen a thystiolaeth ategol o fewn yr amserlenni penodedig, fel y manylir yn y [weithdrefn Apeliadau Academaidd](#).

18 Cadw gwaith

18.1 Mae gan y Brifysgol amserlen cadw cofnodion sy'n nodi pa mor hir y dylid cadw gwaith myfyrwyr. Pwrpas cadw gwaith yw darparu tystiolaeth rhag ofn y bydd adolygiad o benderfyniad y Bwrdd Asesu ac at ddibenion sicrhau ansawdd. Mae'r [amserlen cadw cofnodion](#) yn rhan o'r wybodaeth a'r arweiniad ar reoli cofnodion a chydymffurfiaeth â [Pholisi Rheoli Cofnodion y Brifysgol](#).

19 Diogelu Data

19.1 Pan nad oes angen y gwaith mwyach at y diben y cadwyd ef ar ei gyfer, dylai cyfadrannau fod â system gadarn ar waith ar gyfer dileu gwaith a aseswyd yn gyfrinachol.

20 Gwybodaeth gysylltiedig

20.1 Mae ein holl bolisiau a gweithdrefnau wedi'u hysgrifennu trwy lens sy'n ystyriol o drawma gan ddefnyddio [Pecyn Cymorth TrACE](#), ac wedi'u llywio gan Safonau'r Gymraeg a CYFLE, [Strategaeth a Chynllun Gweithredu Academaidd Cyfrwng Cymraeg](#) Prifysgol Wrexham. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â rheoliadau, polisiau a gweithdrefnau cysylltiedig, gan gynnwys:

- Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Beichiogrwydd myfyrwyr, mamolaeth, mabwysiadu a pholisi a gweithdrefn gofalwyr eilaidd.
- Siarter Cydraddoldeb Hiliol.

Noder: nid yw'r rhestr uchod yn holl-gynhwysol.

20.2 Mae templedi ar gyfer y Brifysgol gyfan y mae'n rhaid eu defnyddio ar gyfer ymarfer asesu, sy'n cynnwys:

- Briff Asesu a Thaflen Adborth
- Amserlen Asesu ac Adborth
- Llawlyfrau Rhaglen a Modiwl

Mae'r holl dempledi ar gael drwy'r Hwb Ansawdd ar Safle SharePoint.

21 Geirfa termau

Tymor	Diffiniad
Asesiad	Diffinnir asesiad fel y modd y mae cyrhaeddiad myfyriwr yn cael ei archwilio a'i raddio'n gwyno mewn rhyw ffordd. Gall asesiad fod ar ffurf gwaith cwrs, profion ymarferol neu arholiadau yn y dosbarth.
Dyfarniad	Tystysgrif, diploma, gradd (neu deitl cymhwyster arall) sy'n nodi bod llwybr neu Raglen a enwir wedi'u cwblhau'n llwyddiannus i safon gymeradwy.
Digollediad (FC neu RC)	O fewn terfynau credyd penodol, gellir dyfarnu credyd i fyfyrwr am fodiwlau nad ydynt wedi'u pasio.
Credydau	Neilltuir credydau i fodiwl sy'n nodi'r cyfraniad y mae'r modiwl yn ei wneud i raglen astudio.
Gohirio (D)	Gohirio yw pan fydd y Bwrdd Asesu yn cadarnhau penderfyniad y Panel Amgylchiadau Esgusodol y caniateir i fyfyrwr y mae ei berfformiad mewn modiwl neu fodiwlau wedi cael ei effeithio gan amgylchiadau esgusodol ailsefyll yr asesiad hwnnw heb golli ymdrech.
Arholwyr Allanol	Rhaid penodi pob Arholwr Allanol ar gyfer rhaglenni a addysgir yn unol â Chôd Ansawdd QAA UK ar gyfer Addysg Uwch - Cyngor ac Arweiniad: Arbenigedd Allanol. Rhaid penodi pob Arholwr Allanol ar gyfer

Tymor	Diffiniad
	Graddau Ymchwil yn unol â'r Rheoliadau priodol ar gyfer Gwobrau Ymchwil Ôl-raddedig.
Methu (F)	'Methu' yw pan fydd myfyriwr sydd wedi cofrestru ar raglen astudio yn dihybyddu pob ymgais a ganiateir ar gyfer modiwl.
Cadw'n Ôl (H)	Mae marc a gedwir yn ôl yn dangos bod y marc yn cael ei gadw'n ôl tra bod gweithdrefn brifysgol arall yn cael ei dilyn, e.e. Ymchwiliad Uniondeb Academiaidd
Lefel	Mae'r modiwlau a gynigir yn y Brifysgol yn cael eu neilltuo i lefelau yn unol â'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ) ac yn unol â Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (CQFW).
Modiwl	Uned astudio â sgôr credyd gyda chanlyniadau dysgu, cwricwlwm a chynllun asesu penodol.
Heb ymgeisio (N)	Cofnodir methu cyflwyno gyda marc o sero (0) ac fe'u cyfrifir fel ymgais a ddefnyddiwyd. Mae hyn yn golygu, ar gyfer yr ailasesiad, mai'r uchafswm marc fyddai 40% neu radd pasio.
Gor-anelu	Mae gor-anelu yn digwydd pan fydd myfyriwr sydd wedi cofrestru ar raglen a addysgir yn cronni mwy o bwyntiau credyd ar lefel benodol nag sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad y maent yn ei ddilyn.
Pasio (P)	Mae'r meini prawf ar gyfer dyfarniad "pasio" wedi'u pennu yn y rheoliadau dyfarnu perthnasol.
Rhaglen	Mae Rhaglen yn gasgliad o fodiwlau mewn trefn benodol, y mae ei chwblhau'n llwyddiannus yn bodloni'r gofynion ar gyfer dyfarniad dynodedig.
Cynnydd	Cynnydd yw pan fydd myfyriwr yn bodloni'r gofynion academiaidd i symud ymlaen i lefel, cam neu flwyddyn nesaf eu rhaglen.
Ailasesiad	Ailasesiad yw pan fydd Bwrdd Asesu yn cytuno y gellir cynnig trydydd ymgais eithriadol i fyfyrwr israddedig sydd wedi methu modiwl neu fodiwlau mewn ymgais atgyfeirio (ail ymgais) i adfer y methiant trwy ailsefyll neu ailgyflwyno'r asesiad. Mae myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir wedi'u cyfyngu i ddau ymgais mewn modiwl. Mae hyn yn amodol ar unrhyw ofynion PSRB a allai fod yn berthnasol i'r rhaglen dan sylw o ran nifer yr ymdrechion sydd ar gael i fyfyrwr lwyddo ar gyfer modiwl.
Atgyfeiriad (R)	Atgyfeiriad yw pan fydd y Bwrdd Asesu yn cytuno y gellir cynnig cyfle i fyfyrwr sydd wedi methu modiwl neu fodiwlau ar yr ymgais gyntaf i adfer y methiant trwy ailsefyll yr arholiad perthnasol neu ailgyflwyno'r asesiad perthnasol. Y marc uchaf ar gyfer modiwlau o'r fath fydd 40% (oni bai bod rhanddirymiad wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Academiaidd) neu radd basio.

Tymor	Diffiniad
Myfyriwr	Person sydd wedi cwblhau cais i'r Brifysgol ac sydd wedi bodloni unrhyw amodau a osodwyd ar gyfer mynediad i'r cwrs(cyrsiau)/rhaglen(ni) y gwnaed cais amdanynt fel y cadarnhawyd gan y tiwtor(iaid) derbyn dan sylw ac sydd wedi cwblhau'r broses gofrestru ffurfiol i ymuno â'r rhaglen(ni) astudio, darparu'r wybodaeth bersonol ofynnol i'r Brifysgol ac arwyddo ffurflen gofrestru ffurfiol gan y Brifysgol ac sydd wedi ei hanfon at, a'i derbyn gan y tîm Cynllunio Strategol.
Gohiriad Technegol	Dyfernir gohiriad technegol gan Fwrdd Asesu pan fo myfyriwr/myfyrwr wedi cael eu heffeithio'n andwyol gan faterion rheoli rhaglenni neu faterion allanol y tu hwnt i'w rheolaeth.
Dal i fyny ('Trailing')	Dal i fyny yw pan fydd Bwrdd Asesu yn caniatáu i fyfyrwr symud ymlaen i lefel, cam neu flwyddyn nesaf y rhaglen, ar ôl peidio â chwblhau pob modiwl yn llwyddiannus yn ystod y lefel, cam neu flwyddyn flaenorol. Mae'n ofynnol i fyfyrwr mewn achosion o'r fath astudio ar gyfer y modiwlau nad ydynt eto wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ochr yn ochr â'r modiwlau y maent yn eu hastudio ar y lefel nesaf, yn unol â rheoliadau dyfarnu perthnasol.

22 Hygyrchedd

22.1 Mae Prifysgol Wreccsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol wedi'i llywio gan drawma wrth ddylunio a gweithredu ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os oes angen addasiadau arnoch i gael mynediad at y weithdrefn hon neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r weithdrefn hon, anfonwch e-bost atom ar quality@wrexham.ac.uk.

Atodiad 1 Cylch gorchwyl Byrddau Asesu

1 Trosolwg

Is-bwyllgor o'r Bwrdd Academaidd yw Bwrdd Asesu.

Mae'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd ac yn gweithredu'n unol â'r Rheol Sefydlog ar Ymddygiad Pwyllgorau.

2 Rhesymeg

Cefnogi'r Bwrdd Academaidd i gwrdd â'i gyfrifoldeb am sicrhau:

- Fod safonau academaidd rhaglenni'r Brifysgol yn bodloni gofynion y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol perthnasol.
- Bod gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr ar bwynt cymwysterau a thros amser yn cydymffurfio â safonau a gydnabyddir gan y sector.

3 Gweithrediad

Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod gan y Byrddau Asesu reoliadau presennol y Brifysgol a rheoliadau'r rhaglen astudio benodol wrth law a bod aelodau'n ymwybodol o'r rheoliadau y bwriedir gwneud penderfyniadau'n unol â nhw.

Bydd y dulliau asesu'n cydymffurfio â dogfen y Rhaglen Ddilysedig ac unrhyw welliannau a gymeradwywyd. Bydd unrhyw amrywiad eithriadol i'r dull asesu yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd a'i gofnodi yn y cofnod o benderfyniadau'r Bwrdd.

4 Swyddogaethau Aelodau'r Bwrdd Asesu

Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am gynnull a hwyluso cyfarfodydd a chynnal eu didueddrwydd yn y broses benderfynu. Yn ogystal, byddant yn gyfrifol am sicrhau bod rheoliadau'n cael eu gweithredu yn unol â chanllawiau a bod argymhellion y Bwrdd yn cael eu cofnodi'n gywir.

5 Adrodd

Rhaid cofnodi trafodion y Bwrdd Asesu a'u cyflwyno i'r tîm Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr (SPSA). Mae gwaith papur y Bwrdd Asesu yn cael ei ystyried yn ddogfennau cyfrinachol a dylai gofnodi penderfyniadau'r Bwrdd, gan gynnwys nodiadau lle mae marciau'r myfyrwyr wedi'u diwygio.

6 Bwrdd Asesu Modiwlau

Cylch gorchwyl

Mae'r Bwrdd Asesu Modiwlau yn atebol i Fwrdd Academaidd y Brifysgol. Gall y Bwrdd Asesu Modiwlau ffurfio unrhyw is-bwyllgorau sydd eu hangen arno i gyflawni ei ddyletswyddau ar yr amod bod y cyfryw bwyllgorau yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Asesu Modiwlau. Rhaid i gyfansoddiad a chylch gorchwyl pob is-bwyllgor gael eu cymeradwyo a'u cofnodi gan Fwrdd Asesu'r Modiwl a'i adrodd i'r Bwrdd Academaidd.

Mae Paneli Bwrdd Academaidd sydd wedi'u sefydlu'n ffurfiol, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r Panel Amgylchiadau Esgusodol, Panel Camymddwyn Academaidd a'r Panel Apêl yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau a fydd yn cael eu gweithredu'n uniongyrchol gan Fwrdd Asesu'r Modiwlau.

Bydd y Bwrdd Asesu Modiwlau yn gyfrifol i, ac yn cael awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd Academaidd i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- Ystyried y marciau ar gyfer yr holl fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r modiwlau sy'n cael eu hasesu ac i fodloni ei hun bod y marciau yn briodol.
- Anfon y marciau y cytunwyd arnynt i'r Bwrdd Asesu Dyfarniadau / Cynnydd priodol.
- Sicrhau bod safonau asesu priodol yn cael eu cynnal.
- Sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hasesu yn unol â'r rheoliadau a'r gweithdrefnau a gymeradwywyd.
- Sicrhau bod dulliau asesu yn cydymffurfio â'r ddogfen Rhaglen Ddilysedig. Bydd unrhyw amrywiad eithriadol i'r dull asesu yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd a'i gofnodi yng nghofnodion y Bwrdd.
- Gweithredu ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Panel Amgylchiadau Esgusodol.
- Dal canlyniad myfyriwr yn ôl neu ohirio'r penderfyniad lle mae'n destun ymchwiliad o dan y weithdrefn Uniondeb Academaidd hyd nes y deuir i ganlyniad.
- Llunio cofnod o ganlyniadau'r modiwl a gymeradwyir gan aelodau'r Bwrdd.
- Penderfynu ar y dulliau asesu ar gyfer myfyrwyr sy'n ailsefyll arholiadau yn unol â manyleb y modiwl. (Fel arfer, bydd strwythur arholiad o'r fath yr un fath â phan gyflwynwyd y myfyrwyr dan sylw i'w harholi y tro cyntaf).
- Awdurdodi'r Cadeirydd i gymryd unrhyw gamau Gweithredol a allai fod yn angenrheidiol i hwyluso busnes brys yn dilyn y Bwrdd. Rhaid i'r penderfyniadau hyn fod ar y diwyg y cytunwyd arno a'u cymeradwyo a'u llofnodi'n ffurfiol gan y Cadeirydd. Bydd y ddogfennaeth hon yn cael ei chadw gyda gwaith papur perthnasol y Bwrdd Asesu.
- Awdurdodi Cadeirydd amgen heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r modiwl neu'r rhaglen sydd dan sylw, i gymryd unrhyw gamau Gweithredol sy'n angenrheidiol i hwyluso busnes brys yn dilyn y Bwrdd i gymeradwyo a llofnodi Gweithred y Cadeirydd, lle nad yw'r Cadeirydd gwreiddiol ar gael.

Cyfansoddiad Aelodaeth

Bydd y Bwrdd Academaidd yn cymeradwyo ychwanegu aelodau academaidd o staff at y rhestr o Gadeiryddion. Gellir llenwi swydd Cadeirydd gan academydd sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol i

gyflawni'r rôl yn llwyddiannus, fel y'i henwebwyd gan Ddeon y Gyfadrannau neu Ddeoniaid Cyswllt. Gall Deoniaid Cyfadrannau a/neu Ddeoniaid Cyswllt enwebu aelodau o staff drwy gynghori'r tîm Asesu a Dyfarnu, a fydd yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd Academaidd. Rhaid gwneud enwebiadau cymeradwy cyn y Byrddau Asesu er mwyn cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol cyn y gall y person sydd wedi'i enwebu gadeirio cyfarfod.

Mae dynodi staff sy'n gymwys i gadeirio byrddau asesu yn amodol ar ddangos profiad o sicrwydd ansawdd asesu y gellid bod wedi ei ennill drwy unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol:

- Safonwr ac Arholwr Allanol gwaith a asesir.
- Profiad fel Cadeirydd mewn byrddau neu baneli eraill.
- Dealltwriaeth gadarn o reoliadau'r Brifysgol ac effaith penderfyniadau'r bwrdd.

Bydd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr, neu berson a enwebwyd ganddo, yr awdurdod i ofyn am Gadeirydd amgen os oes posibilrwydd bod gan y Cadeirydd enwebedig gysylltiad rhy agos â'r modiwl neu'r rhaglenni sy'n cael eu hystyried mewn Bwrdd.

Aelodaeth y Bwrdd Asesu Modiwlau

Bydd pob Bwrdd Asesu Modiwlau yn cynnwys:

- Cadeirydd.
- Deoniaid Cyswllt Cyfadrannau'r Rhaglenni a'r Modiwlau dan ystyriaeth.
- Arholwr(wyr) Allanol sy'n gysylltiedig â Rhaglenni a Modiwlau sy'n cael eu hystyried.
- Asesydd allanol (lle bo hynny'n briodol).
- Cynrychiolwyr Cyrff Statudol neu Reoleiddiol Proffesiynol (lle bo hynny'n briodol).
- Cynrychiolwyr Partneriaid neu Diwtor Cyswllt enwebedig (lle bo hynny'n briodol).
- Arholwyr Mewnol ar gyfer Rhaglenni a Modiwlau dan ystyriaeth.
- Arweinwyr Rhaglen.
- Yn bresennol:
 - Bydd aelod o'r tîm Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr yn mynychu i bwrpas cynghori.
 - Gweinyddwr Bwrdd.

Ex Officio: Gall Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Academaidd fynychu'r Bwrdd Asesu.

Cworwm

Fel arfer, y cworwm ar gyfer Bwrdd Asesu Modiwlau fydd:

- Y Cadeirydd.
2.i	60-69	Da iawn: Dealltwriaeth systematig dda iawn o agweddau allweddol [maes astudio], gan gynnwys caffael gwybodaeth gydlynol a manwl, y mae o leiaf rhywfaint ohoni yn flaenllaw o ran gwaith ieuencid a chymunedol. Defnydd cywir da iawn o dechnegau dadansoddi ac ymholi sefydledig o fewn [maes astudio]. Dealltwriaeth gysyniadol dda iawn a ddefnyddir i ddyfeisio a chynnal dadleuon, a/neu ddatrys problemau, gan ddefnyddio rhai syniadau a thechnegau sydd yn flaenllaw yn y ddisgyblaeth. Defnyddir dealltwriaeth gysyniadol ragorol hefyd i ddisgrifio a chynnig sylwadau ar agweddau penodol ar ymchwil gyfredol, neu ysgolheictod uwch cyfatebol, yn y ddisgyblaeth. Gwerthfawrogiad da iawn o ansicrwydd, amwysedd a therfynau gwybodaeth, rheoli eich dysgu eich hun a defnydd o adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau cynradd (er enghraifft, erthyglau ymchwil wedi'u canoli a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Mae gwaith yn dangos tystiolaeth dda iawn o gymhwyso dulliau a thechnegau dysgedig i adolygu, atgyfnerthu, ymestyn a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, ac i gychwyn a chyflawni prosiectau. Mae gwerthusiad beirniadol da iawn o ddadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn), i lunio barn, ac i fframio cwestiynau priodol i ddatrys - neu nodi ystod o atebion - i broblem. Mae gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion yn cael eu cyfathrebu'n dda iawn i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Tystiolaeth dda iawn o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth lle mae angen gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. Gallu dysgu da iawn ar gyfer ymgymryd â hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfwerth.
2.ii	50-59	Eithaf da: Dealltwriaeth systematig eithaf da o agweddau allweddol [maes astudio], gan gynnwys caffael gwybodaeth gydlynol a manwl, y mae o leiaf rhywfaint ohoni yn flaenllaw o ran [maes astudio]. Defnydd cywir eithaf da o dechnegau dadansoddi ac ymholi sefydledig o fewn [maes astudio]. Dealltwriaeth gysyniadol eithaf da a ddefnyddir i ddyfeisio a chynnal dadleuon, a/neu ddatrys problemau, gan ddefnyddio rhai syniadau a thechnegau sydd yn flaenllaw yn y ddisgyblaeth. Defnyddir dealltwriaeth gysyniadol eithaf da hefyd i ddisgrifio a chynnig sylwadau ar agweddau penodol ar ymchwil gyfredol, neu ysgolheictod uwch cyfatebol, yn y ddisgyblaeth. Gwerthfawrogiad eithaf da o ansicrwydd, amwysedd a therfynau gwybodaeth, rheoli eich dysgu eich hun a defnydd o adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau cynradd (er enghraifft, erthyglau ymchwil wedi'u canoli a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Mae gwaith yn dangos tystiolaeth eithaf da o gymhwyso dulliau a thechnegau dysgedig i adolygu, atgyfnerthu, ymestyn a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, ac i gychwyn a chyflawni prosiectau. Mae gwerthusiad beirniadol eithaf da o ddadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn), i lunio barn, ac i fframio cwestiynau priodol i ddatrys - neu nodi ystod o atebion - i broblem. Mae gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion yn cael eu cyfathrebu'n eithaf da i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Tystiolaeth eithaf da o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth lle mae angen gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. Gallu dysgu eithaf da ar gyfer ymgymryd â hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfwerth.

Dosbarth	%	Meini prawf
3ydd	40-49	Boddhaol: Dealltwriaeth systematig foddhaol o agweddau allweddol [maes astudio], gan gynnwys caffael gwybodaeth gydlynol a manwl, y mae o leiaf rhywfaint ohoni yn flaenllaw o ran gwaith [maes astudio]. Defnydd cywir boddhaol o dechnegau dadansoddi ac ymholi sefydledig o fewn [maes astudio]. Dealltwriaeth gysyniadol foddhaol a ddefnyddir i ddyfeisio a chynnal dadleuon, a/neu ddatrys problemau, gan ddefnyddio rhai syniadau a thechnegau sydd yn flaenllaw yn y ddisgyblaeth. Defnyddir dealltwriaeth gysyniadol foddhaol hefyd i ddisgrifio a chynnig sylwadau ar agweddau penodol ar ymchwil gyfredol, neu ysgolheictod uwch cyfatebol, yn y ddisgyblaeth. Gwerthfawrogiad boddhaol o ansicrwydd, amwysedd a therfynau gwybodaeth, rheoli eich dysgu eich hun a defnydd o adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau cynradd (er enghraifft, erthyglau ymchwil wedi'u canoli a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Mae gwaith yn dangos tystiolaeth foddhaol o gymhwyso dulliau a thechnegau dysgedig i adolygu, atgyfnerthu, ymestyn a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, ac i gychwyn a chyflawni prosiectau. Mae gwerthusiad beirniadol boddhaol o ddadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn), i lunio barn, ac i fframio cwestiynau priodol i ddatrys - neu nodi ystod o atebion - i broblem. Mae gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion yn cael eu cyfathrebu'n foddhaol i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Tystiolaeth foddhaol o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth lle mae angen gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. Gallu dysgu boddhaol ar gyfer ymgymryd â hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfwerth.
R / F	35-39	Atgyfeiriad/Methiant Ymylol: Dealltwriaeth systematig gyfyngedig o agweddau allweddol [maes astudio], gan gynnwys caffael gwybodaeth gydlynol a manwl, y mae o leiaf rhywfaint ohoni yn flaenllaw o ran gwaith [maes astudio]. Defnydd cywir cyfyngedig o dechnegau dadansoddi ac ymholi sefydledig o fewn [maes astudio]. Defnyddir dealltwriaeth gysyniadol gyfyngedig i ddyfeisio a chynnal dadleuon, a/neu ddatrys problemau, gan ddefnyddio rhai syniadau a thechnegau sydd yn flaenllaw yn y ddisgyblaeth. Defnyddir dealltwriaeth gysyniadol gyfyngedig hefyd i ddisgrifio a chynnig sylwadau ar agweddau penodol ar ymchwil gyfredol, neu ysgolheictod uwch cyfatebol, yn y ddisgyblaeth. Gwerthfawrogiad cyfyngedig o ansicrwydd, amwysedd a therfynau gwybodaeth, rheoli eich dysgu eich hun a defnydd o adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau cynradd (er enghraifft, erthyglau ymchwil wedi'u canoli a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Mae gwaith yn dangos tystiolaeth gyfyngedig o gymhwyso dulliau a thechnegau dysgedig i adolygu, atgyfnerthu, ymestyn a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, ac i gychwyn a chyflawni prosiectau. Mae gwerthusiad beirniadol cyfyngedig o ddadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn), i lunio barn, ac i fframio cwestiynau priodol i ddatrys - neu nodi ystod o atebion - i broblem. Mae gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion yn cael eu cyfathrebu'n gyfyngedig i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Tystiolaeth gyfyngedig o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth lle mae angen gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. Gallu dysgu cyfyngedig ar gyfer ymgymryd â hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfwerth.

Dosbarth	%	Meini prawf
	30-34	Atgyfeiriad/Methiant: Y ddealltwriaeth systematig leiaf o agweddau allweddol [maes astudio], gan gynnwys caffael gwybodaeth gydlynol a manwl, y mae o leiaf rhywfaint ohoni yn flaenllaw o ran gwaith [maes astudio]. Y defnydd cywir lleiaf o dechnegau dadansoddi ac ymholi sefydledig o fewn [maes astudio]. Defnydd o'r mymryn lleiaf o ddealltwriaeth gysyniadol i ddyfeisio a chynnal dadleuon, a/neu ddatrys problemau, gan ddefnyddio rhai syniadau a thechnegau yn flaenllaw yn y ddisgyblaeth. Defnydd o'r ddealltwriaeth gysyniadol leiaf hefyd i ddisgrifio a chynnig sylwadau ar agweddau penodol ar ymchwil gyfredol, neu ysgolheictod uwch cyfatebol, yn y ddisgyblaeth. Y gwerthfawrogiad lleiaf o ansicrwydd, amwysedd a therfynau gwybodaeth, rheoli eich dysgu eich hun a defnydd o adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau cynradd (er enghraifft, erthyglau ymchwil wedi'u canoli a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Mae gwaith yn dangos y dystiolaeth leiaf o gymhwyso dulliau a thechnegau dysgedig i adolygu, atgyfnerthu, ymestyn a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, ac i gychwyn a chyflawni prosiectau. Ceir y gwerthusiad beirniadol lleiaf o ddadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn), i lunio barn, ac i fframio cwestiynau priodol i ddatrys - neu nodi ystod o atebion - i broblem. Mae gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion yn cael eu cyfathrebu ar y lefel isaf i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Y dystiolaeth leiaf o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth lle mae angen gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. Y gallu dysgu lleiaf ar gyfer ymgymryd â hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfwerth. (<i>Mae digollediad yn bosibl o fewn rheoliadau'r bwrdd ar gyfer lefel israddedig ac ôl-raddedig</i>).

Dosbarth	%	Meini prawf
	1-29	Atgyfeiriad/Methiant Amlwg: Dealltwriaeth systematig anfoddhaol o agweddau allweddol [maes astudio], gan gynnwys caffael gwybodaeth gydlynol a manwl, y mae o leiaf rhywfaint ohoni yn flaenllaw o ran gwaith [maes astudio]. Defnydd cywir anfoddhaol o dechnegau dadansoddi ac ymholi sefydledig o fewn [maes astudio]. Defnyddir dealltwriaeth gysyniadol anfoddhaol i ddyfeisio a chynnal dadleuon, a/neu ddatrys problemau, gan ddefnyddio rhai syniadau a thechnegau sy'n flaenllaw yn y ddisgyblaeth. Defnyddir dealltwriaeth gysyniadol anfoddhaol hefyd i ddisgrifio a chynnig sylwadau ar agweddau penodol ar ymchwil gyfredol, neu ysgolheictod uwch cyfatebol, yn y ddisgyblaeth. Gwerthfawrogiad anfoddhaol o ansicrwydd, amwysedd a therfynau gwybodaeth, rheoli eich dysgu eich hun a defnydd o adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau cynradd (er enghraifft, erthyglau ymchwil wedi'u canoli a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Mae gwaith yn dangos tystiolaeth anfoddhaol o gymhwyso dulliau a thechnegau dysgedig i adolygu, atgyfnerthu, ymestyn a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, ac i gychwyn a chyflawni prosiectau. Mae gwerthusiad beirniadol anfoddhaol o ddadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn), i lunio barn, ac i fframio cwestiynau priodol i ddatrys - neu nodi ystod o atebion - i broblem. Mae gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion yn cael eu cyfathrebu'n anfoddhaol i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Tystiolaeth anfoddhaol o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth lle mae angen gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. Gallu dysgu anfoddhaol ar gyfer ymgymryd â hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfwerth. <i>(Mae digollediad yn bosibl o fewn rheoliadau'r bwrdd ar gyfer lefel israddedig ac ôl-raddedig).</i>
	0	Atgyfeiriad/Methiant: Methiant i gyflwyno

5 Fframwaith Marcio Lefel 7

Mae'r fframwaith marcio yn cyd-fynd â'r Pwyntiau Cyfeirio Allanol canlynol:

[Disgrifyddion Lefel Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru \(CQFW\)](#)

[Fframweithiau ar gyfer cymwysterau Addysg Uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU 2024 \(FHEQ\)](#)

Ffiniau Graddau %	0	1-29%	30-39%	40 – 49%	50 – 59%	60 – 69%	70 – 79%	80 – 90%	90-100%	Cyfanswm
Canlyniadau dysgu: 1.	Methiant i gyflwyno	Anfoddhaol (nodwch y canlyniad dysgu)	Isafswm (nodwch y canlyniad dysgu)	Boddhaol (nodwch y canlyniad dysgu)	Eithaf da (nodwch y canlyniad dysgu)	Da (nodwch y canlyniad dysgu)	Ardderchog (nodwch y canlyniad dysgu)	Eithriadol (nodwch y canlyniad dysgu)	Rhagorol (nodwch y canlyniad dysgu)	
		Ddim yn bodloni'r canlyniad dysgu a'r meini prawf i basio'r aseiniad	Y ddealltwriaeth systematig leiaf o wybodaeth gydag ymwybyddiaeth feirniadol o faterion cyfredol a mewnwelediadau heb eu cefnogi gan ymchwil.	Peth dealltwriaeth systematig sylfaenol o wybodaeth gydag ymwybyddiaeth feirniadol o faterion cyfredol a mewnwelediadau heb gefnogaeth ymchwil.	Dealltwriaeth systematig eithaf da o wybodaeth gydag ymwybyddiaeth feirniadol o faterion cyfredol a mewnwelediadau heb gefnogaeth ymchwil.	Dealltwriaeth systematig dda o wybodaeth gydag ymwybyddiaeth feirniadol o faterion cyfredol a mewnwelediadau heb gefnogaeth ymchwil.	Dealltwriaeth systematig ardderchog o wybodaeth gydag ymwybyddiaeth feirniadol o faterion cyfredol a mewnwelediadau heb gefnogaeth ymchwil.	Dealltwriaeth systematig eithriadol o wybodaeth gydag ymwybyddiaeth feirniadol o faterion cyfredol a mewnwelediadau heb gefnogaeth ymchwil.	Dealltwriaeth systematig ragorol o wybodaeth gydag ymwybyddiaeth feirniadol o faterion cyfredol a mewnwelediadau heb gefnogaeth ymchwil.	

Ffiniau Graddau %	0	1-29%	30-39%	40 – 49%	50 – 59%	60 – 69%	70 – 79%	80 – 90%	90-100%	Cyfanswm
			Diffyg gwerthusiad beirniadol, creadigrwydd a chymhwyso gwybodaeth mewn modd gwreiddiol. Ychydig iawn neu ddim tystiolaeth o annibyniaeth wrth gynllunio a threfnu gwaith. Mae syniadau'n cael eu cyfathrebu'n wael.	Gwerthusiad beirniadol, creadigrwydd a chymhwyso gwybodaeth mewn modd gwreiddiol yn gyfyngedig. Tystiolaeth gyfyngedig o annibyniaeth wrth gynllunio a threfnu gwaith. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n gyfyngedig.	Rhywfaint o werthuso beirniadol, creadigrwydd a chymhwyso gwybodaeth mewn modd gwreiddiol. Rhywfaint o dystiolaeth o annibyniaeth wrth gynllunio a threfnu gwaith. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n dda iawn.	Gwerthusiad beirniadol, creadigrwydd a chymhwyso gwybodaeth yn wreiddiol yn dda. Tystiolaeth dda o annibyniaeth wrth gynllunio a threfnu gwaith. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n dda.	Gwerthusiad beirniadol, creadigrwydd a chymhwyso gwybodaeth yn wreiddiol yn ardderchog. Tystiolaeth sylweddol o annibyniaeth wrth gynllunio a threfnu gwaith. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n ardderchog.	Gwerthusiad beirniadol, creadigrwydd a chymhwyso gwybodaeth yn wreiddiol yn eithriadol. Tystiolaeth helaeth o annibyniaeth wrth gynllunio a threfnu gwaith. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n eithriadol.	Gwerthusiad beirniadol, creadigrwydd a chymhwyso gwybodaeth yn wreiddiol yn rhagorol. Tystiolaeth ddigynsail o annibyniaeth wrth gynllunio a threfnu gwaith. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n rhagorol.	
Sylwadau										

	%	Meini prawf
Rhagoriaeth		Rhagorol: Dealltwriaeth systematig eithriadol o wybodaeth ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sy'n flaenllaw yn y ddisgyblaeth academiaidd, maes astudio neu faes ymarfer proffesiynol. Mae'r gwaith yn dangos gwybodaeth ragorol am dechnegau sy'n berthnasol i ymchwil ac ysgolheictod uwch. Mae'r dull cymhwysio gwybodaeth yn wreiddiol gyda dealltwriaeth ymarferol ragorol o sut mae technegau ymchwil ac ymholi sefydledig yn cael eu defnyddio i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth pwnc. Mae gwaith yn cynnwys tystiolaeth o werthusiad beirniadol eithriadol o ymchwil gyfredol, ysgolheictod uwch a methodolegau i gynnig damcaniaethau newydd os yw'n briodol. Mae tystiolaeth o reolaeth systematig a chreadigol eithriadol o faterion cymhleth i wneud penderfyniadau cadarn yn absenoldeb data cyflawn. Caiff casgliadau eu cyfathrebu'n rhagorol i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Hunangyfeiriad a gwreiddioldeb rhagorol wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys gyda thystiolaeth o allu rhagorol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bersonol ac i ddatblygu sgiliau newydd ar lefel uchel. Tystiolaeth ragorol o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen blaengarwch a chyfrifoldeb personol, gwneud penderfyniadau cymhleth a dysgu annibynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
	90-100	
	80-90	Eithriadol: Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae'r rhinweddau sy'n ofynnol ar gyfer y radd uchod yn cael eu harddangos, er y gallai fod gwallau dibwys.
	70-79	Ardderchog: Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae'r rhinweddau sy'n ofynnol ar gyfer y radd uchod yn cael eu harddangos. Efallai y bydd camgymeriadau dibwys a rhai mân anghywirdebau/hepgoriadau.

	%	Meini prawf
Pasio	60-69	Da iawn: Dealltwriaeth systematig dda iawn o wybodaeth ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sy'n flaenllaw yn y ddisgyblaeth academiaidd, maes astudio neu faes ymarfer proffesiynol. Mae'r gwaith yn dangos gwybodaeth dda iawn am dechnegau sy'n berthnasol i ymchwil ac ysgolheictod uwch. Mae'r dull cymhwyso gwybodaeth yn wreiddiol gyda dealltwriaeth ymarferol dda iawn o sut mae technegau ymchwil ac ymholi sefydledig yn cael eu defnyddio i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth pwnc. Mae gwaith yn cynnwys tystiolaeth o werthusiad beirniadol da iawn o ymchwil gyfredol, ysgolheictod uwch a methodolegau i gynnig damcaniaethau newydd os yw'n briodol. Mae tystiolaeth o reolaeth systematig a chreadigol dda iawn o faterion cymhleth i wneud penderfyniadau cadarn yn absenoldeb data cyflawn. Caiff casgliadau eu cyfathrebu'n dda iawn i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Hunangyfeiriad a gwreiddioldeb da iawn wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys gyda thystiolaeth o allu da iawn i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bersonol ac i ddatblygu sgiliau newydd ar lefel uchel. Tystiolaeth dda iawn o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen blaengarwch a chyfrifoldeb personol, gwneud penderfyniadau cymhleth a dysgu annibynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
	50-59	Eithaf da: Dealltwriaeth systematig eithaf da o wybodaeth ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sy'n flaenllaw yn y ddisgyblaeth academiaidd, maes astudio neu faes ymarfer proffesiynol. Mae'r gwaith yn dangos gwybodaeth eithaf da am dechnegau sy'n berthnasol i ymchwil ac ysgolheictod uwch. Mae'r dull cymhwyso gwybodaeth yn wreiddiol gyda dealltwriaeth ymarferol eithaf da o sut mae technegau ymchwil ac ymholi sefydledig yn cael eu defnyddio i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth pwnc. Mae gwaith yn cynnwys tystiolaeth o werthusiad beirniadol eithaf da o ymchwil gyfredol, ysgolheictod uwch a methodolegau i gynnig damcaniaethau newydd os yw'n briodol. Mae tystiolaeth o reolaeth systematig a chreadigol eithaf da o faterion cymhleth i wneud penderfyniadau cadarn yn absenoldeb data cyflawn. Caiff casgliadau eu cyfathrebu'n eithaf da i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Hunangyfeiriad a gwreiddioldeb eithaf da wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys gyda thystiolaeth o allu eithaf da i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bersonol ac i ddatblygu sgiliau newydd ar lefel uchel. Tystiolaeth eithaf da o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen blaengarwch a chyfrifoldeb personol, gwneud penderfyniadau cymhleth a dysgu annibynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

	%	Meini prawf
	40-49	Boddhaol: Dealltwriaeth systematig foddhaol o wybodaeth ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sy'n flaenllaw yn y ddisgyblaeth academiaidd, maes astudio neu faes ymarfer proffesiynol. Mae'r gwaith yn dangos gwybodaeth foddhaol am dechnegau sy'n berthnasol i ymchwil ac ysgolheictod uwch. Mae'r dull cymhwyso gwybodaeth yn wreiddiol gyda dealltwriaeth ymarferol foddhaol o sut mae technegau ymchwil ac ymholi sefydledig yn cael eu defnyddio i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth pwnc. Mae gwaith yn cynnwys tystiolaeth o werthusiad beirniadol boddhaol o ymchwil gyfredol, ysgolheictod uwch a methodolegau i gynnig damcaniaethau newydd os yw'n briodol. Mae tystiolaeth o reolaeth systematig a chreadigol foddhaol o faterion cymhleth i wneud penderfyniadau cadarn yn absenoldeb data cyflawn. Caiff casgliadau eu cyfathrebu'n foddhaol i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Hunangyfeiriad a gwreiddioldeb boddhaol wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys gyda thystiolaeth o allu boddhaol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bersonol ac i ddatblygu sgiliau newydd ar lefel uchel. Tystiolaeth foddhaol o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen blaengarwch a chyfrifoldeb personol, gwneud penderfyniadau cymhleth a dysgu annibynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
Atgyfeiriad/Methiant	35-39	Atgyfeiriad/Methiant Ymylol: Peth dealltwriaeth systematig o wybodaeth ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sy'n flaenllaw yn y ddisgyblaeth academiaidd, maes astudio neu faes ymarfer proffesiynol. Mae'r gwaith yn dangos peth gwybodaeth am dechnegau sy'n berthnasol i ymchwil ac ysgolheictod uwch. Mae'r dull cymhwyso gwybodaeth yn wreiddiol gyda pheth dealltwriaeth ymarferol o sut mae technegau ymchwil ac ymholi sefydledig yn cael eu defnyddio i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth pwnc. Mae gwaith yn cynnwys peth tystiolaeth o werthusiad beirniadol o ymchwil gyfredol, ysgolheictod uwch a methodolegau i gynnig damcaniaethau newydd os yw'n briodol. Mae peth tystiolaeth o reolaeth systematig a chreadigol o faterion cymhleth i wneud penderfyniadau cadarn yn absenoldeb data cyflawn. Caiff casgliadau eu cyfathrebu'n eithaf da i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Peth hunangyfeiriad a gwreiddioldeb wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys gyda pheth tystiolaeth o allu i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bersonol ac i ddatblygu sgiliau newydd ar lefel uchel. Tystiolaeth gyfyngedig o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen blaengarwch a chyfrifoldeb personol, gwneud penderfyniadau cymhleth a dysgu annibynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. <i>(Mae digollediad yn bosibl o fewn rheoliadau'r bwrdd ar gyfer lefel israddedig ac ôl-raddedig).</i>

%	Meini prawf
30-34	Atgyfeiriad / Methiant: Y ddealltwriaeth systematig leiaf o wybodaeth ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sy'n flaenllaw yn y ddisgyblaeth academiaidd, maes astudio neu faes ymarfer proffesiynol. Mae'r gwaith yn dangos y wybodaeth leiaf am dechnegau sy'n berthnasol i ymchwil ac ysgolheictod uwch. Mae'r dull cymhwyso gwybodaeth yn wreiddiol gyda'r ddealltwriaeth ymarferol leiaf o sut mae technegau ymchwil ac ymholi sefydledig yn cael eu defnyddio i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth pwnc. Mae gwaith yn cynnwys tystiolaeth o werthusiad beirniadol lleiaf o ymchwil gyfredol, ysgolheictod uwch a methodolegau i gynnig damcaniaethau newydd os yw'n briodol. Mae tystiolaeth leiaf o reolaeth systematig a chreadigol o faterion cymhleth i wneud penderfyniadau cadarn yn absenoldeb data cyflawn. Caiff casgliadau eu cyfathrebu'n gyfyngedig i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Yr hunangyfeiriad a'r gwreiddioldeb lleiaf wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys gyda'r dystiolaeth leiaf o allu i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bersonol ac i ddatblygu sgiliau newydd ar lefel uchel. Y dystiolaeth leiaf o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen blaengarwch a chyfrifoldeb personol, gwneud penderfyniadau cymhleth a dysgu annibynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
1-29	Cyfeiriad/Methiant Clir: Dealltwriaeth systematig anfoddhaol o wybodaeth ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sy'n flaenllaw yn y ddisgyblaeth academiaidd, maes astudio neu faes ymarfer proffesiynol. Mae'r gwaith yn dangos gwybodaeth anfoddhaol am dechnegau sy'n berthnasol i ymchwil ac ysgolheictod uwch. Nid yw'r dull cymhwyso gwybodaeth yn wreiddiol gyda dealltwriaeth ymarferol anfoddhaol o sut mae technegau ymchwil ac ymholi sefydledig yn cael eu defnyddio i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth pwnc. Mae gwaith yn cynnwys tystiolaeth o werthusiad beirniadol anfoddhaol o ymchwil gyfredol, ysgolheictod uwch a methodolegau i gynnig damcaniaethau newydd os yw'n briodol. Mae tystiolaeth annigonol o reolaeth systematig a chreadigol o faterion cymhleth i wneud penderfyniadau cadarn yn absenoldeb data cyflawn. Caiff casgliadau eu cyfathrebu'n wael i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Hunangyfeiriad a gwreiddioldeb anfoddhaol wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys gyda thystiolaeth o allu anfoddhaol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bersonol ac i ddatblygu sgiliau newydd ar lefel uchel. Nid yw'r gwaith yn arddangos y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen blaengarwch a chyfrifoldeb personol, gwneud penderfyniadau cymhleth a dysgu annibynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
0	Cyfeiriad/Methiant: Methiant i gyflwyno

Atodiad 3 - Trefn Arholi

1 Pwrpas a Chyd-destun

1.1 Mae'r drefn hon er mwyn darparu staff Prifysgol Wrecsam gyda'r wybodaeth angenrheidiol ynghylch arholiadau'r brifysgol ar gyfer campysau Wrecsam, Llaneurgain a Llanelwy. Mae partneriaid dramor yn gyfrifol am drefnu a goruchwyllo eu harholiadau unigol hwy, gan ddilyn eu trefn eu hunain ac felly nid ydynt yn dod o dan gwmpas y ddogfen hon.

1.2 Gan nad oes unrhyw gyfleuster arholi canolog o fewn Prifysgol Wrecsam sy'n cynnwys lleoliad storio diogel canolog, cyfleusterau argraffu diogel, proses hyfforddi orfodol na thîm staff penodol yn gyfrifol am oruchwyllo arholiadau, bydd y ddogfen hon yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau staff unigol mewn perthynas ag arholiadau.

1.3 Drwy ddilyn y trefniadau hyn, gall staff y brifysgol sicrhau bod y broses arholi'n cael ei gweithredu mewn modd effeithlon, teg a phroffesiynol. Disgwylir i'r holl aelodau staff gydymffurfio gyda pholisïau'r brifysgol a chyfrannu at gynnal uniondeb y system arholi.

1.4 Bydd datganiad Cymwys i Sefyll y Brifysgol yn berthnasol i bob arholiad.

2 Amserlennu Arholiadau

2.1 Bydd y prif gyfnodau arholi ffurfiol yn digwydd ar ddiwedd semester un ac ar ddiwedd semester dau, gyda chyfnod ail-eistedd cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd newydd, fel arfer ym mis Awst.

2.2 Mae amserlen arholi a phrofion yn y dosbarth ar gyfer y flwyddyn academiaidd sydd i ddod wedi'u cynnwys yn y ceisiadau amserlennu gan dimau rhaglen fel rhan o'r ymarfer casglu data amserlennu. Dylai timau rhaglen sicrhau bod yr arholiadau arfaethedig a'r profion yn y dosbarth yn alinio gyda rhaglen sydd wedi'i dilysu a'r fanyleb modiwlau a hyd asesiad sydd wedi'u hamseru. Os oes angen unrhyw newidiadau i hyd arholiadau, mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo'n swyddogol drwy'r [broses addasu](#).

2.3 Dylai amserlennu unrhyw asesiad sydd wedi'i labelu fel 'arholiad' gael ei wneud yn ystod yr wythnosau arholi swyddogol fel y manylir yn y [calendr academiaidd](#) oni bai bod darparu rhaglen yn disgyn oddi allan i'r calendr arferol.

2.4 Dylai amseru unrhyw asesiad sydd wedi'i labelu fel 'prawf yn y dosbarth' gael ei gynnal yn ystod yr wythnosau dysgu y manylir arnynt yn y calendr academiaidd, ac nid yn ystod yr wythnosau arholi ffurfiol.

2.5 Dylai'r tiwtor modiwl cysylltiedig gysylltu gyda'r arweinydd rhaglen, y Cydlynnydd Amserlenni Academiaidd a'r tîm academiaidd er mwyn atal unrhyw wrthdaro o ran amserlen a sicrhau y gwneir cais am ystafelloedd ychwanegol sydd eu hangen a'u harchebu ymlaen llaw cyn i'r asesu ddigwydd.

2.6 Bydd y dyddiadau a'r amseroedd asesu a gadarnhawyd yn cael eu cyhoeddi i fyfyrwyr o fis Medi'r flwyddyn academaidd sydd i ddod. Bydd newidiadau i'r amserlen ond yn digwydd os oes gwrthdaro yn amserlen y myfyriwr sy'n cael ei amlygu yn dilyn cofrestriad y myfyriwr. Bydd unrhyw wrthdaro yn amserlen myfyrwyr yn cael ei adnabod gan y tîm amserlennu a bydd datrysiad yn cael ei sicrhau mewn cytundeb gyda'r tîm rhaglen. Ni fydd unrhyw amserlen arholi ar wahân yn cael ei chyhoeddi felly mae'n rhaid i staff a myfyrwyr gyfeirio at amserlen rhaglen gyffredinol ar gyfer yr wybodaeth yma.

2.7 Ar adeg holi am amserlen arholi, dylai staff academaidd fanylu p'un ai a yw'r arholiadau i gael eu cynnal o bell ar-lein, ar-lein ond ar y campws mewn ystafell gyfrifiaduron/ gyda myfyrwyr yn dod â'u dyfeisiadau eu hunain neu ar y campws mewn ystafell ddosbarth arferol, er mwyn i'r arholiadau gael eu hamserlennu yn ôl y gofyn cyn cyhoeddi. Os na ddarperir unrhyw wybodaeth i'r tîm amserlennu, yna bydd arholiadau'n cael eu hamserlennu yn ddiofyn i fod o bell ar-lein yn ystod wythnosau arholi swyddogol y brifysgol y mae'n rhaid i'r tîm rhaglen eu hwyluso.

2.8 Gall myfyrwyr ddefnyddio eu dyfais eu hunain ar gyfer arholiadau ar-lein neu ar y campws. Os nad oes gan fyfyrwyr fynediad at ddyfais eu hunain er mwyn ymgymryd ag arholiad, dylent roi gwybod i'w harweinydd modiwl yn y lle cyntaf.

2.9 Mae'n rhaid i Arweinwyr Modiwl roi gwybod i'r holl fyfyrwyr sut y cynhelir yr arholiadau ymlaen llaw a hwyluso unrhyw ymarfer defnyddio offer, os oes angen.

2.10 Bydd y tîm amserlennu'n gyfrifol am oruchwylio amserlen arholi gyffredinol y brifysgol a lle bynnag y bo'n bosib, dylent osgoi amserlennu dau arholiad o fewn cyfnod o 24 awr ar gyfer myfyrwyr.

2.11 Yn ystod yr wythnosau arholi swyddogol bydd y tîm amserlennu yn gyfrifol am drefnu gosodiad yr ystafell arholi ar y cyd gyda'r adran Ystadau er mwyn sicrhau bod myfyrwyr wedi eu gosod allan yn briodol yn y gofod. Ar gyfer arholiadau a phrofion yn y dosbarth oddi allan i wythnosau arholi canolog, dylai tiwtoriaid modiwlau sicrhau bod y dyraniad gofod yn bodloni amgylchiadau'r ystafell arholi fel y manylir yn y pecyn Ystafell Arholi a leolir yn yr [Hwb Dysgu ac Addysgu](#) a threfnu gosodiad yr ystafell yn unol â hynny.

2.12 Dylai arholiadau ymarferol ddilyn yr un trefniadau amserlennu cyn dechrau'r flwyddyn academaidd er mwyn sicrhau bod y lleoliadau ymarferol ar y campws ar gael ac wedi'u hamserlennu'n briodol.

2.13 Os nad yw'n bosib i arholiadau gael eu cynnal oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd e.e. tywydd gwael, mae'n rhaid i arholwr y modiwl gysylltu gyda'r tîm amserlennu er mwyn cytuno ar drefniadau aildrefnu. Er y bydd yr amserlenni'n cael eu haddasu, dylai arholwr y modiwl wneud cyhoeddiad VLE i'r myfyrwyr yr effeithir arnynt.

3 Addasiadau Rhesymol ar gyfer Arholiadau

3.1 Disgwylir i arweinwyr modiwlau wirio unrhyw fyfyrwr sydd ag anghenion arholi/prawf yn y dosbarth ychwanegol rhwng pythefnos i chwe wythnos cyn y digwyddiad a amserlennir. Diweddarir y data hwn gan y Gwasanaeth Cynhwysiant yn rheolaidd felly awgrymir y dylid gwirio'n ychwanegol cyn yr arholiad.

3.2 Dylid rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer unrhyw fyfyrwr sydd angen amser ychwanegol ar gyfer cwblhau arholiadau a phrofion yn y dosbarth ac os yw hynny ar y campws, mewn ystafell ar wahân neu gyda myfyrwr eraill sy'n ymgymryd â'r un cyfnod arholi. Os oes angen ystafelloedd ychwanegol ar gyfer addasiadau rhesymol, mae gofyn i arweinwyr modiwlau weithio gyda'r tîm amserlennu cyn i'r arholiad/prawf yn y dosbarth ddigwydd a chadarnhau'r trefniadau amgen gyda'r myfyrwr yr effeithir arnynt. Am gefnogaeth wrth drefnu bod amser ychwanegol ar gael gydag arholiad Moodle ar-lein, dylai arweinwyr modiwlau gysylltu gyda'r tîm Dysgu Digidol.

3.3 Os gwneir trefniadau ychwanegol, ar wahân ar gyfer myfyrwr gyda gofynion arholiad unigol, yna cyfrifoldeb yr arweinwyr modiwl yw cyfathrebu'r rhain yn uniongyrchol gyda'r myfyrwr. Er enghraifft, lleoliad ar wahân eu harholiad.

3.4 Bydd myfyrwr yr argymhellir iddynt ddefnyddio darlennydd neu ysgrifennydd angen defnyddio eu technoleg gynorthwyol arbenigol ar gyfer arholiadau ar-lein. Os oes angen Darlennydd/Ysgrifennydd ffisegol at bwrpas arholiadau, bydd angen i diwtoriaid y modiwl drefnu hyn gyda'r tîm Cynhwysiant. Dylai tiwtor y modiwl hefyd wneud cais am ystafell ar wahân gan y tîm Amserlennu.

3.5 Dylai staff sicrhau cyfrinachedd ynghylch anghenion addasiadau rhesymol myfyrwr, yn unol â pholisïau GDPR a gwarchod data'r brifysgol. Ar gyfer unrhyw ymholiadau addasiadau rhesymol mae'n rhaid i'r tîm rhaglen gysylltu gyda'r Gwasanaethau Cynhwysiant.

4 Arholiadau a phrofion ar-lein o bell

4.1 Mae arholiadau/profion ar-lein i'w cynnal yn unol â gweithdrefnau arferol ar gyfer dilysu mewnlol a chymeradwyo gan arholwr allanol. Gallant fod ar ffurf arholiad llyfr agored neu gaeedig.

4.2 Cynhelir arholiadau ar-lein drwy'r amgylchedd dysgu rhithiol (VLE) neu feddalwedd arholi penodol a dylai myfyrwr dderbyn cyfarwyddiadau llawn ynghylch sut i gwblhau a chyflwyno eu hasesiad.

4.3 Bydd arholwr y modiwl yn cael ei benodi gan yr arweinydd modiwl, yn safle'r ddarpariaeth ac maent yn gyfrifol am ddiweddarau'r gofrestr presenoldeb i gofnodion myfyrwr sydd wedi ymgysylltu gyda'r arholiad ar-lein drwy'r system amserlennu.

4.4 Cyn yr arholiad, dylai myfyrwr ddarllen y nodiadau canllawiau arholiadau, gan gynnwys yr hysbysiad Addas i Sefyll a chwblhau hunan-ddatganiad ar gyfer uniondeb academiaidd.

4.5 Mae'n rhaid i fyfyrwyr gyflwyno eu hatebion cyn diwedd y cyfnod arholi. Ni fydd cyflwyniadau hwyr yn cael eu hystyried a byddant yn cael eu cofnodi fel absenoldeb, oni bai bod problemau technegol profedig o fewn y llwyfan VLE neu feddalwedd arholi, neu os yw'r myfyriwr yn gymwys ar gyfer amser ychwanegol.

4.6 Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n profi anawsterau technegol yn ystod yr arholiad adrodd am y broblem wrth arholwr y modiwl yn syth, a byddant ar gael yn ystod amser gwaith yn ystod y cyfnod arholi. Os na ellir datrys unrhyw broblemau yn ystod y cyfnod arholi, gall myfyrwyr gyflwyno eu llyfrau ateb dros e-bost i arholwr y modiwl cyn i'r arholiad orffen ond dylai hyn ond cael ei ganiatáu pan nad yw myfyrwyr yn gallu cyflwyno eu gwaith ar gyfer ei farcio ar y VLE.

4.7 Os nad yw'n bosib i arholiadau ar-lein gael eu cynnal oherwydd problemau technegol mawr nas rhagwelwyd mae'n rhaid i arholwr y modiwl gysylltu gyda'r tîm amserlennu er mwyn cytuno ar drefniadau aildrefnu. Er y bydd yr amserlenni'n cael eu haddasu, dylai arholwr y modiwl sicrhau bod y myfyrwyr yr effeithir arnynt yn ymwybodol o'r newid.

5 Arholiadau ar y campws a phrofion yn y dosbarth

5.1 Cynhelir arholiadau ar y campws yn electronig, ac mae'n rhaid i unrhyw eithriadau i hyn gael eu cymeradwyo gan Arweinydd Rhaglen (gyda mewnbwn gan y prif ddarlithwyr/arweinwyr pwnc).

5.2 Os yw arholiadau/profion yn y dosbarth sy'n defnyddio papur yn weithredol, mae arweinwyr modiwlau'n gyfrifol am baratoi ac argraffu'r papur(au) arholiad. Mae'n rhaid i bapurau cwestiwn gynnwys gofod ar gyfer atebion arholiad gan na ddarperir unrhyw lyfrynau ysgrifennu ar wahân gan y brifysgol.

5.3 Cyn yr arholiad, dylai myfyrwyr ddarllen y nodiadau canllawiau arholiad, gan gynnwys yr hysbysiad Addas i Sefyll sydd wedi'i leoli ar yr [Hwb Dysgu ac Addysgu](#) a chwblhau hunan-ddatganiad ar gyfer uniondeb academiaidd.

5.4 Nid yw'n ofynnol llwytho papurau arholiadau i gronfa ganolog.

5.5 Mae papurau arholiadau'n gyfrifoldeb i'r arweinydd modiwl, ac mae'n rhaid iddynt gael eu rheoli'n ddiogel gan sicrhau nad oes unrhyw fynediad anawdurdodedig i'r papurau.

5.6 Disgwylir i arweinwyr modiwl oruchwylio eu harholiadau a'u profion yn y dosbarth eu hunain sydd wedi'u hamserlennu mewn ystafell ddosbarth, labordy cyfrifiaduron neu ofod arbenigol ar y campws a dylent ddod o hyd i oruchwylywyr ychwanegol o fewn y tîm rhaglen neu'r cyfleusterau ehangach. Sylwch nad oes cronfa o oruchwylywyr allanol. Dylai'r gyfradd goruchwylywyr i fyfyrwyr fod fel a ganlyn:

- 1 myfyriwr: 1 goruchwyliwr.
- 2-50 o fyfyrwyr: 2 oruchwyliwr.

- Bydd angen un goruchwyliwr pellach fel arfer ar gyfer pob 50 o fyfyrwyr ychwanegol wedi hynny.

5.7 Bydd cyfarwyddiadau a chanllawiau ar gyfer goruchwylwyr ar gael yn electronig ar yr [Hwb Dysgu ac Addysgu](#) fel bod goruchwylwyr yn cael mynediad atynt yn annibynnol yn barod ar gyfer amser dechrau'r arholiadau. Bydd hyn yn cynnwys manylion ynghylch rolau a chyfrifoldebau goruchwylwyr, negeseuon perthnasol i'w darllen i fyfyrwyr, ymdrin â sefyllfaoedd lle ceir achosion o gamymddwyn academiaidd, problemau ynghylch ymddygiad/ymddwyn a phrosesau arholi cyffredinol.

5.8 Mae arwyddion ystafelloedd arholi dwyieithog ar gael i'w casglu o'r Dderbynfa ac y mae'n rhaid eu harddangos y tu mewn a thu allan i'r ystafell arholi. Yn dilyn yr arholiad, mae'n rhaid i oruchwylwyr sicrhau bod yr arwyddion yn cael eu tynnu i lawr, gwirio bod yr ystafell arholi'n glir a dychwelyd yr arwyddion i'r Dderbynfa yn barod ar gyfer i'r person nesaf fynd.

5.9 Yn ystod yr arholiad, gall yr amser gael ei arddangos yn electronig i fyfyrwyr drwy'r taflunydd AV yn yr ystafell arholi, fodd bynnag gellir casglu clociau o'r Dderbynfa hefyd os bydd eu hangen. Os yw clociau'n cael eu cymryd o'r Dderbynfa, mae'n rhaid i oruchwylwyr ddychwelyd y rhain yn syth wedi'r arholiad yn barod i'r person nesaf eu defnyddio.

5.10 Mae goruchwylwyr yn gyfrifol am gymryd data presenoldeb myfyrwyr yn ystod yr arholiad a diweddarau'r gofrestr ar y system amserlennu.

6 Canllawiau goruchwyllo

6.1 Fel arfer, arweinydd y modiwl yw'r Prif Oruchwyliwr. Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod yr arholiad yn cael ei gynnal mewn modd priodol a byddant yn cwblhau adroddiad Goruchwyllo er mwyn cofnodi unrhyw ddigwyddiadau.

6.2 Os yw'r myfyriwr yn dechrau teimlo'n sâl yn ystod arholiad, dylent roi gwybod i oruchwyliwr cyn gadael yr ystafell arholiad. Dylid cynghori'r myfyriwr i geisio sicrhau sylw meddygol yn syth a chyfeirio ar y drefn Amgylchiadau Esgusodol ar gyfer arweiniad. Unwaith mae myfyriwr wedi gadael yr ystafell arholi heb eu goruchwyllo, ni chaniateir iddynt ddychwelyd.

6.3 Os yw'r larwm tân yn seinio yn ystod arholiad ar y campws neu yn yr ystafell ddosbarth, rhoddir cyfarwyddiadau i'r myfyrwyr adael yr ystafell arholi gan y Prif Oruchwyliwr. Mae'n bosib y bydd angen aildrefnu'r arholiad os nad yw wedi bod yn bosib cynnal amgylchiadau arholi.

7 Ymddygiad Mewn Arholiadau

7.1 Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r [Drefn Uniondeb Academiaidd](#).

7.2 Gwaherddir cyfathrebu ynghylch cynnwys papur arholiad gyda myfyrwyr eraill cyn, yn ystod ac wedi'r arholiad.

7.3 Lle daw yn hysbys bod papur arholiad wedi'i gyfaddawdu, cyn i'r arholiad gael ei chynnal, yna bydd angen i bapur newydd gael ei gyflenwi yn ei le gan dîm y rhaglen fel mater o frys er mwyn atal myfyrwyr rhag bod dan anfantais.

7.4 Lle daw'n hysbys bod papur arholiad wedi'i gyfaddawdu, wedi i'r arholiad gael ei gynnal, yna bydd yr arholiad yn cael ei dirymu a bydd disgwyl i fyfyrwyr sefyll yr arholiad gyda phapur sydd heb ei weld ar y cyfle cyntaf posib.

7.5 Os yw'r goruchwyliwr yn credu bod myfyriwr yn achosi cynnwrf i fyfyrwyr eraill yn yr ystafell, mae ganddynt yr awdurdod i'w gwneud hi'n ofynnol i fyfyriwr adael yr ystafell arholi. Fel arfer, dylid rhoi un rhybudd gan wneud cofnod o'r rhybudd, ac os na wrandewir arno, yna dylid dweud wrth y myfyriwr am adael.

7.6 Lle mae amheuaeth bod Uniondeb academiaidd wedi'i dorri yn ystod yr arholiad, hysbysir y myfyriwr/myfyrwyr cysylltiedig gan oruchwyliwr y bydd y digwyddiad yn cael ei adrodd arno o dan y Drefn Uniondeb Academiaidd. Bydd y Prif Oruchwyliwr yn cofnodi amser a manylion y digwyddiad ar yr adroddiad Goruchwyllo. Mae'n bosib y caniateir i'r myfyriwr/myfyrwyr barhau gyda'r arholiad ond fe'u cynghorir y bydd eu marc arholiad yn cael ei ddal, yn ddibynnol ar ganlyniad y [Drefn Uniondeb Academiaidd](#).

7.7 Mae'n bosib y bydd myfyriwr yn destun trefn ddisgyblu ar gyfer ymddygiad amhriodol mewn arholiad.

8 Camgymeriadau gweinyddol sy'n gysylltiedig gydag arholiadau

8.1 Mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw gamgymeriadau y doir o hyd iddynt ar y papur arholiad wrth y safleoedd partner neu safleoedd arholi eraill. Lle nad oes modd unioni'r camgymeriad, mae'n rhaid adrodd amdano wrth Ddeon y Gyfadran a fydd yn adrodd i'r Bwrdd Asesu.

8.2 Ar gyfer arholiadau a gynhelir mewn sefydliadau partner, dylid cyfeirio ymholiadau at y Cyswllt Academiaidd.

9 Rolau a Chyfrifoldebau


Camau Gweithredu	Cyfrifoldeb	Llinell Amser
Cyflwyno cais am amserlen arholiad	Cydlynnydd Amserlennu Academiaidd/Arweinydd Modiwl	Mai
Cynhyrchu amserlen arholiad	Y Tîm Amserlennu	Mai - Awst
Cyhoeddi amserlen arholiad	Y Tîm Amserlennu	Medi
Creu papur arholiad	Arweinydd y Modiwl	Medi - Tachwedd

Camau Gweithredu	Cyfrifoldeb	Llinell Amser
Ceisio Cymeradwyaeth i'r papur gan Arholwr Allanol (os yw'n berthnasol)	Arweinydd y Modiwl	Medi - Tachwedd
Diweddarau gwybodaeth addasiadau rhesymol myfyrwyr ar y system berthnasol.	Cynhwysiant	Medi - 6 wythnos cyn yr wythnosau arholi
Gwirio myfyrwyr sydd ag addasiadau rhesymegol	Arweinydd Modiwl/Tîm Amserlennu/Cynhwysiant	4-6 wythnos cyn yr wythnosau arholi
Trefnu amser ychwanegol ar gyfer arholiadau ar-lein	Arweinydd Modiwl ar y cyd gyda'r Tîm VLE	4-6 wythnos cyn yr wythnosau arholi
Cadarnhau Darllenydd/cefnogaeth Cofnodwr ar gyfer myfyrwyr sydd angen hyn ac sy'n ymgymryd ag arholiadau ar y campws.	Arweinydd Modiwl/Tîm Amserlennu/Cynhwysiant	4-6 wythnos cyn yr wythnosau arholi
Cyflwyno ceisiadau diweddarau amserlen ar gyfer myfyrwyr gydag addasiadau rhesymol. Ystafell/amser ychwanegol/diwygiadau amserlen bersonol ac ati	Arweinydd Modiwl/Tîm Amserlennu/Cynhwysiant	4-6 wythnos cyn yr wythnosau arholi
Diweddarau amserlenni gydag addasiadau rhesymol y rhoddwyd gwybod amdanynt	Y Tîm Amserlennu	4-6 wythnos cyn yr wythnosau arholi
Cadarnhau trefniadau arholiadau ychwanegol gyda myfyrwyr sydd â gofynion arholi unigol.	Arweinydd y Modiwl	4-6 wythnos cyn yr wythnosau arholi
Dod o hyd i'r nifer gofynnol o oruchwylwyr	Arweinydd Modiwl/Tîm y Rhaglen	4-6 wythnos cyn yr arholiad
Gosodiad yr Ystafell Arholi	Y Tîm Amserlennu ar y cyd gydag Ystadau	Wythnosau arholi swyddogol
Argraffu papurau arholi (gan gynnwys lle ar gyfer atebion)	Arweinydd Modiwl	Cyn yr arholiad

Camau Gweithredu	Cyfrifoldeb	Llinell Amser
ysgrifenedig) os yw'r arholiadau ar y campws a'u storio'n ddiogel.		
Cael arwyddion ystafell arholiad (a chlociau os nad ydynt yn cael eu harddangos yn electronig) gan y Dderbynfa os yw'r arholiad ar y campws.	Arweinydd Modiwl/Goruchwyliwr	Hyd at 60 munud cyn yr arholiad
Cael mynediad at yr hysbysiadau perthnasol i'w darllen yn uchel i fyfyrwyr ar ddechrau'r arholiad ar y campws	Arweinydd Modiwl/Goruchwyliwr	Yn ystod yr arholiad
Dychwelyd arwyddion ystafell arholi a chlociau i'r Dderbynfa os yw'r arholiad ar y campws.	Arweinydd Modiwl/Goruchwyliwr	Yn syth wedi i'r arholiad ddod i ben
Cymryd cofrestr o bresenoldeb myfyrwyr yn yr arholiad	Arweinydd Modiwl/Goruchwyliwr	O fewn 7 diwrnod i'r arholiad gael ei chynnal
Storio a marcio arholiadau'n defnyddio papur yn ddiogel	Arweinydd Modiwl/ail farciwr	O fewn 3 wythnos i'r arholiadau gael eu cynnal

Atodiad 4 – Siart Llif Academaidd y Gymraeg

1. Siart Llif i fyfyrwyr



2. Siart llif i staff

